Arolygiad o dan Adran 28 o Ddeddf Addysg 2005

Ysgol Gynradd Gymraeg Castell Nedd,
Heol Woodland,
Castell Nedd.
SA11 3AL

Rhif yr Ysgol: 6712168

Dyddiad yr Arolygiad: 4/12/06

gan

Luned Eleri Betts
17717

Dyddiad Cyhoeddi: 9/2/07

Dan rif contract Estyn:
1104306

Adroddiad gan Luned Eleri Betts.
Ysgol G.G. Castell Nedd, 04/12/06

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

* ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan, awdurdodau addysg lleol (AALlau);
* ysgolion cynradd;
* ysgolion uwchradd;
* ysgolion arbennig;
* unedau cyfeirio disgyblion;
* ysgolion annibynnol;
* addysg bellach;
* dysgu oedolion yn y gymuned;
* gwasanaethau cymorth ieuenctid;
* AALlau;
* addysg a hyfforddiant athrawon;
* dysgu yn y gwaith;
* cwmnïau gyrfaoedd; ac
* elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

* yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
* yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau.

Cymerwyd pob gofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Ⓗ **Argraffydd a Rheolwr y Frenhines Llyfrfa Ei Mawrhydi 2007: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod yr hawlfraint yn y deunydd hwn fel a enwyd uchod a rhaid nodi teitl yr adroddiad.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl heb fod yn fwy na chost atgynhyrchu ar eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Adroddiad gan Luned Eleri Betts.
Ysgol G.G. Castell Nedd, 04/12/06

Arolygwyd Ysgol Gynradd Gymraeg Castell Nedd fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Gynradd Gymraeg Castell Nedd rhwng 04/12/06 a 07/12/06. Comisiynwyd yr arolygiad, gan dîm annibynnol o arolygwyr, a arweinwyd gan Luned Eleri Betts. Comisiwynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol, ond a ariennir gan, Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae yna dri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, mae yna adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, nid oes adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, mae adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, mae adroddiadau ar yr holl bynciau hefyd.

Mae Estyn yn penderfynu ar y math o arolygiad a gaiff ysgol, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Caiff pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgolion newydd neu ysgolion wedi'u huno arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol.**

Adroddiad gan Luned Eleri Betts.
Ysgol G.G. Castell Nedd, 04/12/06

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac yn y blaen. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13	B14
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18	18-19

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen

Cyd-destun **1**

Crynodeb **2**

Argymhellion **8**

Safonau **9**

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? **9**

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant **11**

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? **11**

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? **14**

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? **16**

Arweinyddiaeth a rheolaeth **18**
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? **18**

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? **19**

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? **20**

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu **22**
Y Cyfnod Sylfaen **22**
Saesneg **29**
Mathemateg **30**
Technoleg gwybodaeth **31**
Dylunio a thechnoleg **32**
Cerddoriaeth **33**
Addysg gorfforol **34**

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad **36**
Atodiadau **37**
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol **37**
2 Data a dangosyddion ysgol **37**
3 Canlyniadau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol **38**
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad **39**
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu **40**

Cyd-destun

Natur y darparwr

1. Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg Castell Nedd ger canol tref Castell Nedd. Daw'r disgyblion o'r dref ei hun ac o bentrefi cyfagos. Mae'r ysgol yn nodi eu bod yn dod o gefndiroedd amrywiol gyda rhai'n freintiedig ac eraill yn ddifreintiedig. Cânt eu haddysgu yn gyfangwbl trwy gyfrwng y Gymraeg. 331 disgybl sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd-ffigwr sy'n cynnwys 38 plentyn yn y meithrin. Fe'u haddysgir o fewn 13 dosbarth.

2. Un ar ddeg y cant o'r disgyblion sydd â'r hawl i gael prydiau bwyd am ddim, ffigwr sydd yn llawer is na'r canran cenedlaethol a lleol. Daw'r mwyafrif o gartrefi di-Gymraeg; tua 12% sy'n dod o gefndir lle Cymraeg yw prif iaith y cartref. Does neb o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae pedwar deg dau disgybl ar y gofrestr anghenion addysg arbennig (AAA) ond does neb â datganiad.

3. Mae'r ysgol yn un o'r rhai hynny a ddewiswyd i fod yn ysgol beilot ar gyfer y Cyfnod Sylfaen; o'r herwydd mae plant tair i saith oed yn dilyn Fframwaith Ddrafft y Cyfnod Sylfaen ac maent wedi eu datgymhwyso o'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC).

4. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Nhachwedd 2000. Yn ddiweddar enillodd Farc Ansawdd y Sgiliau Sylfaenol, derbyniodd faner werdd Ysgol Eco yn 2004 a safonau ysgol iach yn 2005 a 2006. Mae ganddi bennaeth newydd ers Medi 2006.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

5. **Prif amcanion yr ysgol yw:**

- sicrhau llwyddiant i'r unigolyn a bod pob plentyn yn ganolig i'r dysgu a bod cyfraniad pob un yn cael ei barchu;
- sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i ddatblygu yn emosiynol, yn gymdeithasol, yn foesol ac yn addysgol hyd eithaf ei allu;
- sefydlu awyrgylch hapus a chartrefol a bod yr ethos yma yn hybu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig, a bod amgylchedd yr ysgol yn adlewyrchu parch drwy safonau uchel o arddangos a gofal;
- meithrin cysylltiadau â'r gymuned leol, a dechrau paratoi plant i fod yn oedolion cyfrifol yn eu cymunedau;
- anelu at ddatblygu rhinweddau personol fel dyfalbarhad, diwydrwydd, hunan fynegiant, teyrngarwch, gonestrwydd a hunan hyder i hybu hunan barch a pharch at erail ac
- annog pob plentyn i chwarae rôl flaenllaw a gweithredol ym mywyd yr ysgol.

6. **Blaenoriaethau'r ysgol am eleni yw:**

- parhau i hybu datblygiad proffesiynol staff er mwyn gwella perfformiad disgyblion a datblygu trefniadaeth ar gyfer amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu athrawon;
- datblygu gweithdrefnau ar gyfer monitro darpariaeth gwricwlaidd;
- parhau i gynnal mentrau megis Ysgol Eco ac Ysgolion Iach;
- datblygu technoleg gwybodaeth gan gynnwys datblygu gwefan yr ysgol;
- parhau i ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen ar gyfe plant tair i saith oed a
- datblygu'r safle ymhellach.

Crynodeb

7. Bu Ysgol Gynradd Gymraeg Castell Nedd trwy gyfnod o newid mawr yn ystod y tair blynedd ddiwethaf oherwydd ymgymryd â sefydlu'r Cyfnod Sylfaen fel ysgol beilot a newid yn yr arweinyddiaeth. Erbyn hyn, llwyddwyd i sefydlu'r newidiadau angenrhediol ar gyfer plant tair i saith oed ac mae'r pennaeth newydd wedi rhannu ei weledigaeth yn effeithiol ar gyfer symud yr ysgol ymlaen gyda rhieni, staff a'r corff llywodraethol (CLl). Mae ethos arbennig i'r ysgol sy'n cael dylanwad mawr ar ddatblygiad y disgyblion. Maent hwy yn dangos agweddau da at eu chwarae a'u gwaith ac mae eu hymddygiad yn rhagorol.

8. Mae'r tîm arolygu yn cytuno gyda hunan-arfarniad yr ysgol mewn pedwar cwestiwn allweddol. Maent wedi rhoi gradd is na'r radd a ddyfarnodd yr ysgol yn y tri arall oherwydd bod rhai diffygion yn y cwestiynau hynny. Tybiant fod y newidiadau a nodwyd uchod wedi amharu yn sylweddol ar rai agweddau o ddatblygiad yr ysgol.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol		**Gradd arolygu**
1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	Gradd 2
2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	Gradd 2
3	Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	Gradd 2
4	Pa mor dda yw'r gofal,y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	Gradd 2
5	Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	Gradd 2
6	Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	Gradd 3
7	Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	Gradd 2

9. Yn y 55 gwers a arolygwyd, mae safonau a gyflawnir gan y disgyblion fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
6%	81%	11%	2%	-

10. Mae'r ysgol yn cyrraedd targedau Llywodraeth Cenedlaethol Cymru (LlCC) ar gyfer 2007 sef bod safonau cyflawniad o leiaf yn foddhaol (Gradd 3) mewn 98% o wersi a arolygwyd ac o leiaf yn dda (Gradd 2) mewn 65% o wersi a welwyd.

11. Mae safonau a gyflawnir gan y plant yn y meysydd dysgu a arolygwyd fel a ganlyn;

Graddau yn y meysydd dysgu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen

Y Cyfnod Sylfaen	Gradd 2
Datblygiad personol a chymdeithasol a lles	Gradd 2
Medrau Iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 2
Datblygiad mathemategol	Gradd 2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 2
Dealltwriaeth amlddiwyllianol	Gradd 2
Datblygiad corfforol	Gradd 2
Datblygiad creadigol	Gradd 2

Graddau ar gyfer y pynciau a arolygwyd

Maes Arolygu	
Saesneg Cyfnod Allweddol 2 (CA2)	Gradd 3
Mathemateg CA2	Gradd 2
Technoleg gwybodaeth CA2	Gradd 2
Dylunio a thechnoleg CA2	Gradd 3
Cerddoriaeth CA2	Gradd 2
Addysg gorfforol CA2	Gradd 2

12. Mae canlyniadau disgyblion saith oed yn asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) yn ôl asesiad athro yn CA1, wedi bod yn gyson uwch na'r canrannau cenedlaethol a lleol yn ystod y dair blynedd ddiwethaf. Maent wedi cyrraedd targedau'r CLl o 80% yn gyson ac yn 2005,y flwyddyn olaf y gwnaed y profion, roedd pob disgybl wedi cyflawni lefel 2 (y lefel ddisgwylir o ddisgyblion sy'n saith oed). Roedd y Dangosydd Pwnc Craidd (DPC), sef nifer y disgyblion sydd wedi cyflawni lefel 2 yn y tri phwnc craidd felly yn uwch na'r canrannau cenedlaethol a lleol ac ysgolion tebyg, sef ysgolion gyda'r nifer tebyg o ddisgyblion yn cael cinio am ddim. Nid oes gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched.

13. Ar gyfer plant unarddeg oed yn CA2, mae canlyniadau profion CC ac asesiad athro yn ystod y dair blynedd diwethaf wedi dangos cynnydd ac wedi cyrraedd y targedau a osodwyd gan y CLl. Fodd bynnag, nid yw canlyniadau'r ysgol yn rhagori i'r fath raddau dros ysgolion eraill, ag y gwnaeth yng nghyfnod yr arolygiad diwethaf. Mae'r canlyniadau ychydig yn uwch na'r canrannau

cenedlaethol a lleol yn Saesneg a mathemateg, tua'r un fath yn Gymraeg ac ychydig yn is mewn gwyddoniaeth. Mae'r DPC (sef nifer y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 mewn tri phwnc craidd) yr un fath â'r ffigwr cenedlaethol ond yn uwch na'r ffigyrau lleol. O gymharu gydag ysgolion tebyg, mae'r ysgol tua'r canol. Fodd bynnag, roedd nifer sylweddol o ddisgyblion wedi cyflawni lefel 5 yn y pedwar pwnc craidd yn 2006. Ar y cyfan nid yw bechgyn yn perfformio cystal â merched.

14. Er bod y canlyniadau yn dangos bod nifer sylweddol y disgyblion yn cyflawni'n dda, nid yw'r holl ddisgyblion bob amser yn CA2, yn cyrraedd eu potensial. Mae disgyblion ag anghenion addysg arbennig (AAA) yn gwneud cynnydd da ymhob agwedd arall o'u datblygiad; ar y cyfan maent yn cyrraedd eu potensial.

15. Yn y medrau allweddol mae safonau a chynnydd plant y Cyfnod Sylfaen mewn gwrando yn rhagorol (Gradd 1). Maent yn dda (Gradd 2) mewn siarad, darllen, ysgrifennu, rhifedd a Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) ar draws y meysydd dysgu.

16. Yn CA2 mae safonau mewn gwrando yn Gymraeg a Saesneg yn rhagorol (Gradd 1), maent yn dda (Gradd 2) mewn siarad ac yn dda ar y cyfan (Gradd 2) hefyd mewn darllen ac ysgrifennu. Mae disgyblion CA2 yn ddefnyddwyr medrus o TGCh (Gradd 2). Gradd 3 yw rhifedd gan mai prin yw'r defnydd wnâ'r disgyblion o fedrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae sgiliau dwyieithog y disgyblion yn dda.

17. Mae'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith. Nodwedd o'u hymddygiad rhagorol yw eu cwrteisi tuag at ymwelwyr a'r parch at ei gilydd. Mae datblygiad medrau personol a chymdeithasol y disgyblion yn dda.

18. Mae lefel presenoldeb yn is na'r lefelau cenedlaethol ac ar gyfartaledd yn 92%. Mae lefelau y tymor hwn wedi gwella ychydig gyda ffigwr absenoldeb o 6.4%, sydd yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae nifer fach o disgyblion yn cyrraedd yn hwyr yn y bore.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

19. Barnwyd ansawdd yr addysgu, yn y gwersi a welwyd yn ystod yr arolygiad, fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
16%	69%	13%	2%	-

20. Mae ansawdd addysgu plant yn y Cyfnod Sylfaen yn dda ac yn aml yn rhagorol yn B1. Mae yn fwy amrywiol yn CA2. Ar gyfer disgyblion ag AAA mae'n gyson dda.

21. Lle mae'r addysgu yn dda ac weithiau'n dangos nodweddion rhagorol mae cyflwyniadau'r athrawon yn symbylus, ac yn adeiladu'n dda ar waith blaenorol ac mae strwythur a chyflymder y wers yn briodol. Lle mae'r gwersi yn dangos

diffygion mae cyflwyniad y gwersi yn rhy hir ac mae disgyblion yn ei chael yn anodd canolbwyntio.

22. Ar draws y Cyfnod Sylfaen mae asesu'n dda; mae gan y staff cynorthwyol, yn ogystal a'r athrawon, rôl ragweithiol wrth asesu datblygiad y plant o ddydd i ddydd.

23. Asesir gwaith yn y pynciau craidd ddwywaith y flwyddyn ar draws CA2. Rhoddir sylwadau ar gynnydd disgyblion yn y pynciau sylfaen ar ddiwedd y flwyddyn yn unig.

24. Rhoddir targedau unigol i ddisgyblion yn eu llyfrau iaith, ond ar y cyfan nid yw'r targedau yn ddigon penodol i sicrhau gwelliannau cyson. Prin yw'r dystiolaeth bod y targedau yn cael eu hadolygu neu eu diweddaru.

25. Caiff gwaith ei farcio'n rheolaidd ar y cyfan. Anghyson yw'r sylwadau sydd yn esbonio'n glir ac yn fanwl sut y gall disgyblion wella'u gwaith. Cydymffurfia'r adroddiadau blynyddol i rieni gyda gofynion statudol.

26. Mae'r cwricwlwm ar gyfer plant dan saith oed yn darparu cyfleoedd i'r plant ddysgu trwy chwarae a darganfod. Mae cytbwysedd yn y ddarpariaeth ar draws y saith maes dysgu ac mae cysylltiadau ysgogol yn aml rhwng y meysydd hyn, sy'n darparu cyfle i gadarnhau'r dysgu. Mae'r ddarpariaeth yn dal i ddatblygu yn enwedig ar ben uchaf y cyfnod.

27. Mae disgyblion CA2 yn derbyn profiadau cyfoethog ar draws y cyfnod allweddol; mae'r cwicwlwm a ddarperir yn berthnasol ac yn cwrdd â gofynion statudol. Nid yw'r cynllunio bob amser, fodd bynnag, wedi ei fireinio'n ddigonol ar gyfer yr ysgol; ni roddir digon o sylw i ddarparu gwaith wedi ei addasu I gyfateb gwahanol anghenion dysgwyr, yn enwedig y rhai mwyaf galluog. Er bod y medrau allweddol yn ymddangos yn frâs yn y cynllunio nid yw'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn y dosbarthiadau yn amlwg nag yn effeithiol bob amser. Mae'r ddarpariaeth gwricwlaidd ar gyfer disgyblion AAA yn dda.

28. Mae'r cwricwlwm Cymreig a diwylliant Cymru yn nodwedd rhagorol o ddarpariaeth yr ysgol yn enwedig mewn hanes a daearyddiaeth. Ceir darpariaeth dda, yn arbennig yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill, ac mae disgyblion B5 a B6 yn mwynhau eu profiadau dysgu Ffrangeg wythnosol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dwyieithrwydd yn dda yn CA2.

29. Caiff disgyblion gyfleoedd niferus i gymryd rhan mewn darpariaeth allgyrsiol mewn amryw o chwaraeon a cherdd. Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau nad oes stereoteipio nac anfantais cymdeithasol yn digwydd.

30. Er nad yw'r ysgol yn darparu sesiynau ffurfiol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol maent yn integreiddio'r profiadau hyn trwy'r diwrnod ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol yn rhagorol.

31. Mae'r ysgol yn defnyddio partneriaethau gydag ysgolion eraill a rhieni yn dda i gyfoethogi profiadau cwricwlaidd. Nid yw partneriaethau gyda masnach a diwydiant wedi datblygu'n ddigonol.

32. Mae profiadau a ddarperir i'r disgyblion ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth o fwyta'n iach a chynaladwyedd yn rhagorol. Mae disgyblion yn cyfrannu at achosion elusennol ac mae hyn yn eu datblygu yn effeithiol i fod yn ddinasyddion byd eang.

33. Mae'r ysgol yn cynllunio yn effeithiol ac yn darparu amgylchedd groesawgar a gofalgar er mwyn i'r disgyblion fedru chwarae a dysgu. Gofelir am y disgyblion a chânt eu harwain a'u cefnogi'n dda.

34. Mae'r trefniadau ar gyfer helpu plant ymsefydlu yn y dosbarth meithrin yn dda; mae'r drefniadaeth pontio gyda'r ysgol gyfun yn dda ac yn sicrhau bod disgyblion yn awyddus i ddechrau ar y cam nesaf yn eu haddysg.

35. Mae'r ysgol yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol ar gyfer sicrhau presenoldeb da ac yn ymwybodol o'r angen i wella lefelau presenoldeb. Ni ddilynir i fyny absenoldebau, lle na dderbyniwyd rheswm, yn ddigonol.

36. Mae iechyd a diogelwch y disgyblion yn flaenoriaeth uchel i'r staff a'r CLl ac mae gan yr ysgol ystod eang o fesurau effeithiol ar gyfer lles staff a'r holl ddisgyblion. Trafodwyd mater iechyd a diogelwch gyda'r pennaeth a'r CLl yn ystod yr arolygiad.

37. Mae polisiau a threfniadau clir yn eu lle i ddelio gyda materion parthed amddiffyn plant.

38. Mae'r ysgol yn amlwg yn hybu tegwch, cyfle cyfartal a goddefgarwch ac o ganlyniad mae disgyblion yn meddu ar berthynas dda a chadarn gyda'u cymheiriad a'u hathrawon. Ceir mesurau pwrpasol i sicrhau nad oes ymddygiad gormesol, gan gynnwys gwahaniaethu o ran hîl a bwlian.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

39. Mae i'r ysgol nodau a gwerthoedd cytûn. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir am sefydlu cymuned ysgol lle mae barn a chyfraniad pawb yn cyfrif.

40. Fel rhan o beilot cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru dros y dair blynedd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi elwa o arweinyddiaeth meddylgar y cyn-bennaeth.

41. Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) yn cofnodi'r datblygiadau sydd eu hangen i ddatblygu staff, y cwricwlwm a'r safle dros dair blynedd ac mae yna ffocws o flwyddyn i flwyddyn. Nid yw'n ddogfen ddigon manwl a chlir yn ei ffurf bresennol gan nad yw'n cofnodi'n ddigonol y gwariant sydd ynghlwm wrth ddatblygiadau.

42. Sefydlwyd polisi a rhaglen rheoli perfformiad sydd yn rhoi cyfeiriad i ddatblygiad proffesiynol y staff, gan anelu at ateb gofynion y blaenoriaethau a nodwyd yn y CDY.

43. Er bod safonau da wedi eu cadw mewn nifer o bynciau ers yr arolygiad diwethaf a'u bod wedi codi'n sylweddol mewn technoleg gwybodaeth, mae safonau Saesneg wedi disgyn ac mae marcio a mireinio cynlluniau gwaith yn dal yn argymhellion yn yr arolygiad hwn. Gradd 3 yw cynnydd ers yr arolygiad diwethaf.

44. Mae nodweddion da i'r adroddiad hunan-arfarnu ond nid oes arfarniad digonol o ddatblygiadau yn y cyfnod sylfaen er enghraifft.

45. Nid yw rôl y cydlynwyr wrth fonitro eu pynciau a chyfrannu at y broses hunan-arfarnu wedi datblygu'n ddigonol ac er bod y CLl yn gefnogol iawn i'r ysgol, mae eu cyfraniad at y broses hunan-arfarnu yn gyfyng.

46. Mae' r ysgol yn cymharu ei pherfformiad yn rheolaidd gydag ysgolion tebyg a chyda chanrannau lleol a chenedlaethol. Nid yw targedau y CLl wedi bod yn ddigon heriol yn ystod y dair blynedd ddiwethaf.

47. Mae'r ysgol wedi ei staffio'n gymwys gyda athrawon sy'n meddu cymhwysterau a phrofiad. Bu'r ysgol yn llwyddiannaus wrth gynyddu y nifer o staff cynorthwyol i hyrwyddo'r Cyfnod Sylfaen a chânt eu defnyddio'n da.

48. Mae adolygiadau rheoli perfformiad yn nodi anghenion hyfforddi athrawon yn dda ac yn cydnabod cyfrifoldebau. Maent wedi eu cysylltu'n agos gyda'r CDY.

49. At ei gilydd mae gan yr ysgol gyflenwad da o adnoddau dysgu sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion.

50. Mae'r ysgol wedi ei lleoli mewn nifer o wahanol adeiladau sy'n peri anawsterau, yn enwedig pan fo'r tywydd yn wael. Mae'r gofod ar gyfer gweithgareddau ysgol gyfan yn gyfyng.

51. Rheolir y cyllid yn effeithiol gan y pennaeth a phwyllgor cyllid y CLl. Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

Argymhellion

Er mwyn symud yr ysgol ymlaen mae angen i'r staff a'r CLl:

A1 godi safonau yn Saesneg a dylunio a thechnoleg yn CA2 ac ymateb i'r diffygion a nodwyd yn y pynciau eraill a'r meysydd dysgu a nodir yn yr adroddiad;

A2 datblygu'r system asesu ar draws CA2 gan gynnwys gwella ansawdd y marcio;

A3 parhau i ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant tair i saith oed;

A4 adolygu cynlluniau gwaith a chynllunio tymor byr athrawon gan roi sylw penodol i fedrau allweddol, darparu gwaith wedi ei addasu i gyfateb anghenion dysgwyr o wahanol alluoedd a chodi safonau perfformiad bechgyn, yn enwedig yn CA2;

A5 datblygu rôl monitro'r cydlynwyr cwricwlaidd a'r CLl er mwyn gosod targedau mwy heriol a gwella ansawdd y CDY a'r broses hunan-arfarnu;

A6 gwella canrannau presenoldeb.

Trafodwyd mater iechyd a diogelwch gyda'r pennaeth a'r CLl yn ystod yr arolwg.

Mae argymhellion A3 a A5 eisioes yn flaenoriaethau yn y CDY.

Mae'r CLl yn gyfrifol am ddiwygio ei gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o gael yr adroddiad, gan ddangos yr hyn fydd yr ysgol yn ei wneud ynghylch yr argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

52. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

53. Yn y 55 gwers a arolygwyd, mae safonau a gyflawnir gan y disgyblion fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
6%	81%	11%	2%	-

54. Mae'r ysgol yn cyrraedd targedau LICC ar gyfer 2007 sef bod safonau cyflawniad o leiaf yn foddhaol (Gradd 3) mewn 98% o wersi a arolygwyd ac o leiaf yn dda (Gradd 2) mewn 65% o wersi a welwyd.

55. Mae safonau a gyflawnir gan y plant yn y meysydd a arolygwyd fel a ganlyn:

Graddau yn y meysydd dysgu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen

Y Cyfnod Sylfaen	Gradd 2
Datblygiad personol a chymdeithasol a lles	Gradd 2
Medrau Iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 2
Datblygiad mathemategol	Gradd 2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 2
Dealltwriaeth amlddiwyllianol	Gradd 2
Datblygiad corfforol	Gradd 2
Datblygiad creadigoll	Gradd 2

Graddau ar gyfer y pynciau a arolygwyd

Maes Arolygu	
Saesneg Cyfnod Allweddol 2 (CA2)	Gradd 3
Mathemateg CA2	Gradd 2
Technoleg gwybodaeth CA2	Gradd 2
Dylunio a thechnoleg CA2	Gradd 3
Cerddoriaeth CA2	Gradd 2
Addysg gorfforol CA2	Gradd 2

56. Ar y cyfan, mae plant y Cyfnod Sylfaen a disgyblion CA2 yn gwneud cynnydd da wrth ennill medrau, dealltwriaeth a gwybodaeth newydd a chyflawnant y nodau dysgu cytunedig. Mae canlyniadau asesiad gwaelodlin ar gyfer y plant dan bump yn dangos bod sgiliau'r mwyafrif o'r plant yn gyffredinol dda pan ddechreuant yr ysgol. Yn y dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen mae plant yn gwneud cynnydd da wrth

ymchwilio a darganfod drostynt eu hunain. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn llwyddo beth bynnag fo eu cefndir cymdeithasol.

57. Mae disgyblion ag AAA yn gwneud cynnydd da yn addysgol ac ymhob agwedd arall o'u datblygiad; ar y cyfan maent yn cyrraedd eu potensial.

58. Mae canlyniadau disgyblion saith oed yn asesiadau'r CC, yn ôl asesiad athro yn CA1, wedi bod yn gyson uwch na'r canrannau cenedlaethol a lleol yn ystod y dair blynedd ddiwethaf. Maent wedi cyrraedd targedau'r CLl o 80% yn gyson ac yn 2005, y flwyddyn olaf y gwnaed y profion, roedd 100% o'r disgyblion wedi cyflawni lefel 2 (y lefel ddisgwylir o ddisgyblion sy'n saith oed). Roedd y Dangosydd Pwnc Craidd (DPC), (sef nifer y disgyblion sydd wedi cyflawni lefel 2 yn y tri phwnc craidd) felly yn uwch na'r canrannau cenedlaethol a lleol ac ysgolion tebyg, sef ysgolion gyda'r nifer tebyg o ddisgyblion yn cael cinio am ddim. Roedd nifer sylweddol o'r disgyblion wedi cyflawni lefel 3 mewn llefaredd a darllen yn y Gymraeg ond roedd y nifer yn sylweddol is mewn ysgrifennu. Ym mathemateg roedd amryw hefyd wedi cyflawni lefel 3 ond doedd neb wedi gwneud hynny mewn gwyddoniaeth. Nid oes unrhyw wahaniaeth ym mherfformiad bechgyn a merched.

59. Ar gyfer plant unarddeg oed yn CA2, mae canlyniadau profion CC ac asesiad athro yn ystod y dair blynedd diwethaf wedi dangos cynnydd ac wedi cyrraedd y targedau a osodwyd gan y CLl. Fodd bynnag,nid yw canlyniadau'r ysgol yn rhagori i'r fath raddau dros ysgolion eraill, ag y gwnaeth yng nghyfnod yr arolygiad diwethaf. Mae'r canlyniadau ychydig yn uwch na'r canrannau cenedlaethol a lleol yn Saesneg a mathemateg, tua'r un fath yn Gymraeg ac ychydig yn is mewn gwyddoniaeth. Mae'r DPC (sef nifer y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 mewn tri phwnc craidd) yr un fath â'r ffigwr cenedlaethol ond yn uwch na'r ffigyrau lleol. O gymharu gydag ysgolion tebyg, mae'r ysgol tua'r canol. Fodd bynnag, roedd nifer sylweddol o ddisgyblion wedi cyflawni lefel 5 yn y pedwar pwnc craidd yn 2006. Ar y cyfan nid yw bechgyn yn perfformio cystal â merched.

60. Er bod y canlyniadau yn dangos bod nifer sylweddol y disgyblion yn cyflawni'n dda, nid yw'r holl ddisgyblion yn CA2 bob amser yn cyrraedd eu potensial.

61. Yn y medrau allweddol mae safonau a chynnydd plant y Cyfnod Sylfaen mewn gwrando yn rhagorol (Gradd 1). Mae'n dda (Gradd 2) mewn siarad, darllen, ysgrifennu, rhifedd a TGCh ar draws y meysydd dysgu.

62. Yn CA2 mae safonau mewn gwrando yn Gymraeg a Saesneg yn rhagorol (Gradd 1), maent yn dda (Gradd 2) mewn siarad ac yn dda ar y cyfan (Gradd 2) hefyd mewn darllen ac ysgrifennu. Mae safonau yn y medrau hyn yn amrywio ychydig rhwng dosbarthiadau. Mae disgyblion CA2 yn ddefnyddwyr medrus o TGCh (Gradd 2) ac yn ei ddefnyddio'n aml i gofnodi a gwneud peth ymchwilio ar draws y cyfnod allweddol. Gradd 3 yw rhifedd gan mai prin yw'r defnydd wnâ'r disgyblion o fedrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

63. Mae sgiliau dwyieithog y disgyblion yn dda. Mae disgyblion yn datblygu'n unigolion sy'n hollol gysurus i fynegi eu hunain yn y ddwy iaith. Maent yn

trawsieithu yn effeithiol mewn rhai cyd-destunau ac mae nifer yn gwneud cynnydd da mewn darllen Saesneg o ganlyniad i'r prosiect Esteem ar gyfer disgyblion CA2.

64. Mae plant y Cyfnod Sylfaen yn deall yn glir beth maent yn eu wneud. Mae cefnogaeth a sylwadau cyson gan oedolion yn sicrhau hyn. Mae arsylwadau gan yr oedolion hyn hefyd yn sicrhau bod plant dan saith oed yn deall sut y gallant wella.

65. Yn CA2 mae disgyblion yn defnyddio eu hymwybyddiaeth o nôd y wers yn dda i'w harwain yn eu gwaith. Fodd bynnag ni osodir targedau digon penodol iddynt ac nid ydy rhain bob amser wedi eu nodi'n amlwg yn eu llyfrau i'w hatgoffa amdanynt yn gyson. Gan nad yw'r sylwadau marcio yn ymateb i nôd y wers na'r targed osodwyd bob amser, nid yw'r disgyblion yn gwybod yn fanwl sut maent yn cyflawni a sut mae gwella.

66. Mae'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith; maent yn dangos diddordeb yn y tasgau a roddir iddynt ac maent yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig.

67. Mae ymddygiad y disgyblion yn rhagorol. Maent yn gwrtais tuag at ymwelwyr ac yn parchu ei gilydd. Dangosant ymwybyddiaeth gadarn o reolau'r ysgol a'r hyn ddisgwylir ganddynt. Mae plant y Cyfnod Sylfaen yn arddangos nodweddion rhagorol wrth weithio'n annibynnol ac mae mwyafrif disgyblion CA2 yn gwneud hynny'n dda.

68. Mae datblygiad medrau personol a chymdeithasol y disgyblion yn dda. Datblyga'r disgyblion sgiliau da wrth iddynt gydweithio a chwarae ac mae hyn yn eu paratoi ar gyfer amodau gwaith a bywyd cymunedol.

69. Mae lefel presenoldeb yn is na'r lefelau cenedlaethol ac ar gyfartaledd yn 92%. Mae lefelau y tymor hwn wedi gwella ychydig gyda lefel absenoldeb o 6.4%, sydd yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae nifer fach o ddisgyblion yn cyrraedd yn hwyr yn y bore.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

70. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydfynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

71. Barnwyd ansawdd yr addysgu, yn y gwersi a welwyd yn ystod yr arolygiad, fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
16%	69%	13%	2%	-

72. Ffocws polisi addysgu a dysgu'r ysgol yw argymell cyfle i bob disgybl lwyddo, ac mae'r berthynas waith rhagorol rhwng athrawon, staff cynorthwyol a disgyblion yn sail grêf i sicrhau cyfleoedd cyfartal i'r disgyblion i gyd. Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel o ymddygiad priodol ar ran y disgyblion ac adlewyrchir hyn yn agwedd disgyblion at eu gwaith.

73. Mae ansawdd addysgu plant yn y Cyfnod Slfaen yn dda ac yn aml yn rhagorol yn B1. Mae yn fwy amrywiol yn CA2. Strwythurir gweithgareddau amrywiol a symbylus yn effeithiol, a chynllunir gwaith athrawon a staff cynorthwyol yn ofalus ac yn bwrpasol.

74. Mae ansawdd addysgu disgyblion ag AAA yn gyson dda, a cheir cefnogaeth effeithiol ar gyfer grwpiau o ddisgyblion sydd yn cael eu neilltuo ac o fewn y dosbarthiadau.

75. Lle mae'r addysgu yn dda ac weithiau'n dangos nodweddion rhagorol:

- mae gwybodaeth yr athrawon o'r pynciau yn gadarn;
- cynllunir sesiynau cyflwyno a chrynhoi yn effeithiol;
- rhennir nôd y wers yn glir gyda'r disgyblion;
- mae cyflwyniadau'r athrawon yn symbylus, ac yn adeiladu'n dda ar waith blaenorol;
- rhoddir cyfarwyddiadau clir a chryno sydd yn annog disgyblion i wneud eu gorau;
- mae strwythur a chyflymder y wers yn briodol, ac yn sicrhau bod disgyblion yn cadw ar dasg;
- cefnogir gweithgareddau'r wers yn bwrpasol er mwyn i'r disgyblion orffen y dasg;
- defnyddir TGCh yn ystyrlon i gyfoethogi'r dysgu ac
- mae staff cynorthwyol yn chwarae rhan lawn yn y broses addysgu ac asesu.

76. Lle mae'r addysgu yn dangos diffygion

- nid yw nôd y wers yn glir;
- mae cyflwyniad y wers yn rhy hir ac mae disgyblion yn ei chael yn anodd canolbwyntio;
- ni roddir amser penodol i gyflawni tasg, ac oherwydd diffyg cyflymder priodol, nid yw disgyblion yn rhoi o'u gorau;
- nid yw'r gweithgareddau wedi'u addasu I gyfateb â gwahanol anghenion dysgwyr er mwyn rhoi her i ddisgyblion o allu gwahanol;
- nid yw'r gwaith grŵp/gwaith pâr yn cael ei strwythuro a'i reoli'n dda;
- prin yw'r cyfle a roddir i ddisgyblion i werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd.

77. Mae ansawdd yr asesu gwaelodlin a wneir yn y dosbarth derbyn yn dda, ac yn sail i gynllunio ar gyfer datblygiad y plentyn unigol. Gwneir yr asesu ddwywaith, ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn, er mwyn mesur y cynnydd.

78. Rhoddir pwyslais ar asesu ffurfiannol ar hyd y Cynod Sylaen, sydd yn adlewyrchu'r athroniaeth addysgu. Mae'r asesu'n dda. Mae gan y staff cynorthwyol, yn ogystal a'r athrawon, rôl ragweithiol wrth asesu datblygiad y plant o ddydd i ddydd. Trosglwyddir eu sylwadau ar y saith maes dysgu ar daflen grynodol unigol, sydd yn gofnod o gynnydd y plant, ac yn sail i gynllunio pellach.

79. Asesir gwaith yn y pynciau craidd ddwywaith y flwyddyn, yn nhymor yr hydref a thymor yr haf, ar draws CA2. Gosodir lefel CC ar enghreifftiau o waith, a chedwir copiau ohonynt ym mhroffil personol y disgybl. Rhoddir sylwadau ar gynnydd disgybl yn y pynciau sylfaen ar ddiwedd y flwyddyn yn unig, sydd yn sail i'r farn a roddir yn yr adroddiad i'r rhieni.

80. Rhoddir nifer o brofion safonol mewn mathemateg a darllen i ddisgyblion o B2 i B6, a phrofion Saesneg o B3 i B6 ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Cesglir y canlyniadau ar raglen gyfrifiadurol gan y pennaeth a'u trosglwyddo i'r cydlynwyr pwnc. Fe'u defnyddir i nodi disgyblion y bydd angen cefnogaeth ychwanegol arnynt. Prin yw'r dystiolaeth o ddefnyddio'r wybodaeth hon ar gyfer cyfeirio cynllunio yn y tymor hir neu byr. Cedwir cofnodion darllen ar gyfer pob disgybl.

81. Dynodir disgyblion ag AAA yn gynnar. Datblygu mae trefniadau ar gyfer asesu angen pellach, er bod asesu anghenion unigolion gan asiantau allanol megis y seicolegydd addysgol yn fanwl ac yn ddefnyddiol. Cedwir cofnodion llawn a chysylltir â rhieni yn effeithiol.

82. Nid oes dogfennau sy'n tracio a chofnodi cynnydd disgyblion unigol yn CA2, ond mae'r ysgol yn ymwybodol o'r angen am ddogfen grynodol o'r fath, ac yn ei chynnwys yn ei CDY tymor byr.

83. Caiff gwaith ei farcio'n rheolaidd ar y cyfan. Rhoddir sylwadau cadarnhaol yn gyson ar waith yn y pynciau craidd. Fodd bynnag, anghyson yw'r sylwadau sydd yn esbonio'n glir ac yn fanwl sut y gall disgyblion wella'u gwaith, ac anghyson yw'r ymdrechion hefyd i sicrhau bod disgyblion yn eu hystyried.

84. Rhoddir targedau unigol i ddisgyblion yn eu llyfrau iaith, ond ar y cyfan nid yw'r targedau yn ddigon penodol i sicrhau gwelliannau cyson. Prin yw'r dystiolaeth bod y targedau yn cael eu hadolygu neu eu diweddaru.

85. Er bod ychydig o enghreifftiau o ddisgyblion CA2 yn gwerthuso eu gwaith eu hunain, nid yw rôl rhagweithiol disgyblion yn y broses o asesu eu gwaith a gosod targedau personol wedi datblygu'n ddigonol.

86. Nid oes casgliadau o waith yn y pynciau craidd wedi eu lefelu yn ôl meini prawf y CC mewn portffolios ysgol, er mwyn safoni asesiadau athrawon ac enghreifftio arfer dda. Gwnaed casgliadau o dystiolaeth gwaith disgyblion mewn rhai o'r pynciau sylfaen megis addysg gorfforol, fel cofnod o'r safonau a gyflawnwyd.

87. Cedwir copiau o asesiadau athrawon o waith y disgyblion yn y pynciau craidd ym mhroffiliau personol disgyblion, ynghyd â chopiau o'r adroddiadau diwedd blwyddyn i rieni.

88. Cydymffurfia'r adroddiadau blynyddol i rieni gyda gofynion statudol; rhoddant sylwadau manwl ar gyflawniadau, a barn am safonau gwaith. Cynhwysir targedau sydd yn dangos y ffordd ymlaen i'r disgyblion. Mae cyfleoedd gan y rhieni i drafod cynnydd eu plant mewn cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn, ac i ysgrifennu sylwadau personol ar yr adroddiadau.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

89. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu gan i'r ysgol roi gradd 1 am y cwestiwn hwn.

90. Er bod yr arolygwyr yn ystyried bod na gryfderau amlwg yn y profiadau caiff y disgyblion, mae na ddiffygion yn y cynllunio sydd yn amharu ar y ddarpariaeth ar gyfer unigolion ac ar sicrwydd dilyniant yn sgiliau disgyblion, yn enwedig yn CA2.

91. Mae'r cwricwlwm ar gyfer plant dan saith oed yn ôl athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn darparu cyfleoedd i'r plant ddysgu trwy chwarae a darganfod. Mae cytbwysedd yn y ddarpariaeth ar draws y saith maes dysgu ac mae cysylltiadau ysgogol yn aml rhwng y meysydd hyn, sy'n darparu cyfle i gadarnhau'r dysgu.

92. Er nad yw'r cynllunio ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn dilyn yr un manylder rhwng dosbarthiadau bob amser, ac er nad yw strategaethau ar gyfer yr athroniaeth newydd wedi datblygu'n llawn mewn rhai dosbarthiadau, mae'r profiadau a ddarperir yn eang a hyblyg. Yn B1 mae'n cynnig byd o antur i'r plant.

93. Er mai cyfyng yw'r ardaloedd awyr agored ac er nad ydynt wedi eu lleoli yn y mannau delfrydol, mae'r ddarpariaeth yn cyfoethogi profiadau plant y Cyfnod Sylfaen.

94. Mae disgyblion CA2 yn derbyn profiadau cyfoethog ar draws y cyfnod allweddol ac mae'r cwicwlwm a ddarperir yn berthnasol ac yn cwrdd â gofynion statudol.. Nid yw'r cynlluniau bob amser, fodd bynnag, wedi eu mireinio'n ddigonol ar gyfer anghenion yr ysgol; ni roddir digon o sylw i ddarparu gwaith wedi ei addasu i ymateb i anghenion gwahanol ddysgwyr yn enwedig y rhai mwyaf galluog. Er bod y medrau allweddol yn ymddangos yn frâs yn y cynllunio, nid yw'r ddarpariaeth yn y dosbarthiadau ar eu cyfer yn amlwg nac yn effeithiol bob amser.

95. Mae'r ddarpariaeth gwricwlaidd ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda. Fodd bynnag, amherir ar y ddarpariaeth ychydig gan nad oes ystafell sefydlog ar eu cyfer.

96. Mae pwyslais yr ysgol ar roi profiadau gweladwy i'r plant dan saith a disgyblion CA2 trwy fynd ar ymweliadau, yn gryfder yn y ddarpariaeth. Defnyddir ymweliad ar ddechrau dysgu am bwnc yn effeithiol iawn mewn nifer o ddosbarthiadau. Mae nifer o ymweliadau megis ymweliad â'r Gerddi Botaneg Cenedlaethol a Phwll Mawr Blaenafon, yn aros yng nghôf y disgyblion.

97. Defnyddia'r ysgol gymuned Castell Nedd yn effeithiol er mwyn hyrwyddo profiadau disgyblion o bob oed. Derbynia'r ysgol wahoddiadau yn aml i berfformio mewn achlysuron yn y gymuned ac mae'r parti dawns yn perfformio yn yr ŵyl Gymreig ym Mharis yn flynyddol. Caiff y disgyblion hynaf brofiadau preswyl eraill.

98. Mae'r cwricwlwm Cymreig a diwylliant Cymru yn nodwedd rhagorol o ddarpariaeth yr ysgol yn enwedig mewn hanes a daearyddiaeth. Ceir darpariaeth dda, yn arbennig yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill, ac mae disgyblion B5 a B6 yn mwynhau eu profiadau dysgu Ffrangeg wythnosol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dwyieithrwydd yn dda yn CA2, gyda disgyblion yn dangos hyblygrwydd wrth ddefnyddio testunau yn y ddwy iaith.

99. Mae nifer o athrawon peripatetig cerddoriaeth yn dod i'r ysgol yn wythnosol. Ers i wersi offerynnau pres ddechrau ym mis Medi, mae nifer sylweddol o ddisgyblion CA2 yn manteisio ar y cyfle hwn ac mae wedi ategu ymhellach at nôd yr ysgol o greu cyfleoedd cyfartal i bob disgybl.

100. Caiff disgyblion gyfleoedd niferus i gymryd rhan yn allgyrsiol mewn amryw o chwaraeon a phrofiadau cerddorol. Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau nad oes stereoteipio nac anfantais cymdeithasol yn digwydd.

101. Er nad yw'r ysgol yn darparu sesiynau ffurfiol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol maent yn integreiddio'r agweddau hyn i bynciau yn y dosbarth, trwy gyd-addoli ysgol sydd yn trafod gwerth ffrindiau er enghraifft, a thrwy ymwelwyr i'r ysgol, megis y nyrs a swyddog o'r heddlu sy'n cyfrannu at brofiadau disgyblion.

102. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol yn rhagorol. Mae'r disgyblion yn ystyried y cyd-addoli fel achlysur lle mae'r awyrgylch arbennig yn rhoi cyfle i ddysgu moesau. Mae'r gwasanaeth clôd hefyd yn achlysur sy'n hybu datblygiad personol a chymdeithasol wrth i'r disgyblion glodfori eraill am eu campau; mae cyngor yr ysgol yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol.

103. Mae'r ysgol yn defnyddio partneriaethau yn dda i gyfoethogi profiadau cwricwlaidd. Mae'r cysylltiadau gydag ysgolion sy'n bwydo'r ysgol gyfun leol yn dda fel mae'r berthynas gyda'r ysgol gyfun ei hun. Mae partneriaeth gyda rhieni yn dda ac mae eu hymrwymiad i godi arian o gymorth mawr i'r ysgol. Roedd

nifer o rieni yn y cyfarfod cyn arolygiad yn dangos eu balcher o fod yn perthyn i gymuned yr ysgol. Nid yw partneriaethau gyda masnach a diwydiant wedi datblygu'n ddigonol.

104. Er bod yr ysgol wedi derbyn hyfforddiant ar ddatblygu sgiliau entrepreneraidd ac yn meddu ar adnoddau diweddar, nid yw'r elfen hon wedi datblygu'n ddigonol. Mae ymwybyddiaeth plant y Cyfnod Sylfaen o fyd gwaith yn dda; mae'n llai amlwg yn y ddarpariaeth ar gyfer CA2.

105. Mae profiadau a ddarperir i'r disgyblion ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth o fwyta'n iach a chynaladwyedd yn rhagorol. Mae ail-gylchu yn nodwedd amlwg o fywyd pob dydd a'r ysgol yn gweithredu ei pholisi bwyta'n iach yn glir. Mae'r agweddau hyn yn arwain disgyblion i fod yn ddinasyddion dylanwadol yn eu cymuned. Mae disgyblion yn cyfrannu at achosion elusennol ac mae hyn yn eu datblygu yn effeithiol i fod yn ddinasyddion byd eang.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

106. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydfynd â barn yr ysgol yn ei hadroddaid hunan-arfarnu gan i'r ysgol roi gradd 1 am y cwestiwn hwn. Mae'r tîm yn barnu nad oedd nodweddion rhagorol yn y ddarpariaeth i haeddu'r radd 1.

107. Mae'r ysgol yn cynllunio yn effeithiol ac yn darparu amgylchedd groesawgar a gofalgar er mwyn i'r disgyblion fedru chwarae a dysgu. Gofelir am y disgyblion a chânt eu harwain a'u cefnogi'n dda. Mae'r athrawon yn adnabod y plant yn dda ac maent yn sensitif i'w anghenion.

108. Caiff y disgyblion gyngor bugeiliol da. Mae oedolion yn fodelau rôl da ac mae'r gwerthoedd gofalgar a'r ethos yn amlwg yn y ffordd mae disgyblion yn gofalu am ei gilydd ac yn parchu oedolion. Mae'r disgyblion yn ei chael hi'n hawdd i fynd a'u gofidiau at athrawon neu at Gyngor yr Ysgol. Yn ogystal sefydlwyd cysylltiadau agos gyda asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion sydd â phroblemau yn eu bywydau neu sydd ag AAA. Mae'r ysgol yn gweithredu yn syth i gyngor a roddir iddynt.

109. Mae gan yr ysgol bartneriaeth weithiol effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. Maent yn talu sylw i farn rhieni ac maent hwy yn cael gwybodaeth manwl am eu plant.

110. Mae'r trefniadau i helpu plant ymsefydlu yn y dosbarth meithrin yn dda. Mae'r plant ifancaf yn deall trefn y dosbarth ac yn tyfu'n aelodau hapus o gymuned yr ysgol yn ddiymdroi. Anogir rhieni i chwarae rhan lawn yn y broses o'u hymsefydlu. Mae'r trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion sy'n ymuno â'r ysgol yn hwyrach, hefyd yn dda. Mae'r drefniadaeth pontio gyda'r ysgol gyfun yn dda ac felly mae'r disgyblion yn dweud eu bod yn awyddus i ddechrau ar y cam nesaf yn eu haddysg.

111. Mae'r ysgol yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol ar gyfer sefydlu presenoldeb da. Cedwir golwg fanwl ar bresenoldeb gyda chymorth system gyfrifiadurol. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r angen i wella lefelau presenoldeb ac yn trefnu i atgoffa rhieni o'u cyfrifoldeb er mwyn sicrhau presenoldeb da. Gwneir defnydd da ac amserol o Swyddog Lles yr Awdurdod Addysg Lleol mewn achosion lle bo'r angen, ond ni ddilynir i fyny absenoldebau lle na dderbyniwyd rheswm yn ddigonol.

112. Mae iechyd a diogelwch y disgyblion yn flaenoriaerth uchel i'r staff a'r CLl ac mae gan yr ysgol ystod eang o fesurau effeithiol ar gyfer lles staff a'r holl ddisgyblion. Mae nifer o'r staff wedi derbyn hydfforddiant cymorth cyntaf ac mae gweithdrefnau da yn bodoli i ddelio gyda disgyblion sy'n teimlo'n sâl neu sydd wedi cael damwain. Ymgymerir ag asesiadau risg cyn unrhyw ymweliad addysgol neu weithgareddau. Trafodwyd mater iechyd a diogelwch gyda'r pennaeth a'r CLl yn ystod yr arolygiad.

113. Mae polisiau a threfniadau clir yn eu lle i ddelio gyda materion parthed amddiffyn plant. Y pennaeth yw'r person enwebedig, mae'r dirprwy wedi ei hyfforddi a'r staff yn llwyr ymwybodol o weithdrefnau'r ysgol. Mae cysylltiadau da gyda'r asiantaethau allanol priodol.

114. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion AAA yn dda ac yn cwrdd â gofynion y Côd Ymarfer ar gyfer Cymru. Nodir ac asesir anghenion plant yn gynnar a gosodir targedau addas yn eu Cynlluniau Addysg Unigol (CAU). Mae'r ysgol yn gweithio'n bositif er mwyn sicrhau bod disgyblion a rhieni yn rhan o'r CAUau hyn. Mae ansawdd y cofnodi yn dda ac ansawdd yr asesu gan bobl proffesiynol allanol ac athrawon arbenigol ar gyfer anghenion ychwanegol penodol, megis nam ar y synhwyrau yn dda. Ceir trefniadau pwrpasol ar gyfer cynnwys plant ag anableddau i gymuned yr ysgol.

115. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y nifer fach o ddisgyblion ag anghenion ychwanegol yn dda. Mae plant a disgyblion yn elwa o gefnogaeth addysgu arbenigol o fewn y dosbarth ac mewn grwpiau bach. Mae gan yr athrawes ddealltwriaeth dda am ystod eang o anghenion ychwanegol. Mae disgyblion yn ymateb yn dda i brofiad ac arbenigedd yr athrawes ac yn gwneud cynnydd da mewn medrau allweddol.

116. Nid yw'r ysgol yn caniatau ymddygiad annerbyniol ac ystyrir bwlian yn fater difrifol. Mae gan yr ysgol strategaethau sydd wedi eu datblygu'n dda i ddelio gyda disgyblion pan fo ymddygiad annerbyniol yn atal eu cynnydd. Mae'r Tim Cefnogi Ymddygiad yn rhoi cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion sydd ag anawsterau ymddygiad cymhleth.

117. Mae'r ysgol yn amlwg yn hybu tegwch, cyfle cyfartal a goddefgarwch ac o ganlyniad mae disgyblion yn meddu ar berthynas dda a chadarn gyda'u cymheiriad a'u hathrawon. Caiff y disgyblion gyfleoedd cyfartal i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau ac i dderbyn cefnogaeth addas sy'n rhoi ystyriaeth i'w cefndir cymdeithasol, ieithyddol neu ethnig. Mae gan yr ysgol bolisiau sy'n cael eu gweithredu.

118. Ceir mesurau pwrpasol i sicrhau nad oes ymddygiad gormesol, gan gynnwys gwahaniaethu o ran hil a bwlian. Mae'r ysgol yn llwyddo i hybu ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliant Cymreig ac amryfaliaeth diwylliannau eraill.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

119. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydfynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

120. Mae i'r ysgol nodau a gwerthoedd cytûn sydd yn cael eu hadlewyrchu yn ansawdd bywyd yr ysgol.

121. Mae gan y pennaeth, sydd newydd ei benodi, weledigaeth glir, a rannwyd gyda staff, rhieni a'r CLl, am sefydlu cymuned ysgol lle mae barn a chyfraniad pawb yn cyfrif. Mae'n argymell pwysigrwydd rhoi'r disgybl wrth wraidd y broses addysgu a dysgu, a hyrwyddo safonau uchel sydd yn deillio o welliannau parhaus. Mae am sicrhau bod yr ysgol yn parhau i gynnig cyfleoedd cyfartal i bob disgybl ac i feithrin ethos gofalgar wedi ei seilio ar ymddiriedaeth a pharch. Caiff y pennaeth ei gefnogi'n effeithiol gan ddirprwy profiadol.

122. Fel rhan o beilot cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru dros y dair blynedd dwethaf, mae'r ysgol wedi elwa o arweinyddiaeth meddylgar y cyn-bennaeth. Derbyniodd yr her o ddatblygu cwricwlwm newydd i adlewyrchu athroniaeth datblygiad y plentyn unigol, ac o reoli'r nifer helaeth o staff cynorthwyol ychwanegol a ddaeth yn sgîl y fenter hon yn effeithiol.

123. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth effeithiol i flaenoriaethau cenedlaethol megis Marc Ansawdd y sgiliau sylfaenol. Mae gan yr ysgol Faner Werdd i ddathlu ei statws fel Eco-ysgol, mae hi'n Ysgol Iach ac yn amlygu'i hymroddiad i addysg datblygiad cynaliadwy.

124. Mae partneriaeth gyda choleg hyfforddi athrawon yn fenter effeithiol ac yn golygu bod myfyrwyr yn dod ar brofiad dysgu yn flynyddol, a derbynnir disgyblion o'r ysgol uwchradd a choleg addysg bellach leol am gyfnodau o brofiad gwaith.

125. Mae'r CDY yn cofnodi'r strategaethau sydd eu hangen i ddatblygu staff, y cwricwlwm a'r safle dros dair blynedd ac mae yna ffocws o flwyddyn i flwyddyn. Nid yw'n ddogfen ddigon manwl a chlir yn ei ffurf bresennol gan nad yw'n cofnodi'n ddigonol y gwariant sydd ynghlwm wrth ddatblygiadau.

126. Sefydlwyd polisi a rhaglen rheoli perfformiad sydd yn rhoi cyfeiriad i ddatblygiad proffesiynol y staff, gan anelu at ateb gofynion y blaenoriaethau a nodwyd yn y

CDY. Gosodir amcanion heriol a pherthnasol, ond prin yw'r dystiolaeth bod arfarnu gwelliannau yn ddigon trylwyr i ddadansoddi effaith uniongyrchol rhain ar ansawdd yr addysgu a dysgu.

127. Caiff athrawon newydd eu cymhwyso eu mentora yn ôl y gofynion. Gwnaed trefniadau effeithiol ar y cyfan ar gyfer amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu athrawon gan gynnwys neilltuo ystafell ar eu cyfer i'w galluogi i weithio.

128. Gweithredir system monitro addysgu a dysgu sydd yn rhoi rôl allweddol i'r pennaeth a'r Uwch Dîm Rheoli yn cynnwys arsylwi gwersi, archwilio gwaith disgyblion a sgyrsiau anffurfiol gyda staff, disgyblion a rhieni. Er i gydlynwyr pwnc wneud cyfraniad pwysig i reolaeth yr ysgol, nid yw eu rôl wedi datblygu'n ddigonol. Fodd bynnag, ffurfiwyd rhaglen fonitro newydd y tymor hwn sydd yn dechrau datblygu eu rôl ymhellach. Yn dilyn ymddeoliad y cyn-bennaeth, oedd yn arwain a rheoli'r Cyfnod Sylfaen, nid yw rôl unigolion yn rheolaeth y dosbarthiadau hyn wedi'i ddiffinio'n glir.

129. Mae'r CLl yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae'n gefnogol iawn i reolaeth yr ysgol. Mae llawer o'r aelodau yn gymharol newydd ac mae eu rôl yn un datblygol. Cânt eu hysbysu'n dda gan y pennaeth am fywyd a gwaith yr ysgol, ac mae ganddynt wybodaeth dda am broblemau'r adeilad ac o faterion iechyd a diogelwch, ond nid yw eu cyfraniad at fonitro'r cwricwlwm wedi datblygu'n ddigonol.

130. Rheolir trefniadau o ddydd i ddydd yn effeithiol ac yn effeithlon.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

131. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu gan i'r ysgol roi gradd 2 am y cwestiwn hwn. Barn y tîm oedd fod diffygion yn y broses hunan-arfarnu am nad oedd wedi ei sefydlu yn ddigonol ar draws yr ysgol gyfan.

132. Wrth ddyfarnu bod yr ysgol yn haeddu'r radd 3 maent wedi ystyried yr holl newidiadau fu yn yr ysgol yn ddiweddar ac wedi derbyn tystiolaeth ddigonol fod y broses wedi symud yn ei blaen yn sylweddol gyda'r pennaeth newydd.

133. Roedd yr arolygwyr wedi dyfarnu gradd is na'r ysgol mewn tri o'r cwestiynau allweddol ond maent wedi cytuno gyda mwyafrif y graddau ddyfarnwyd i'r pynciau gan y cydlynwyr pwnc.

134. Ffurfiwyd cynllun gweithredu pwrpasol yn ymateb i ganfyddiadau adroddiad yr arolygiad diwethaf. Mae'n nodi cyfrifoldebau ac amser gwireddu'r targedau. Er bod safonau da wedi eu cadw mewn nifer o bynciau a'u bod wedi codi'n sylweddol mewn technoleg gwybodaeth, mae safonau Saesneg wedi disgyn ac mae marcio a mireinio cynlluniau gwaith yn dal yn argymhellion yn yr arolygiad hwn. Boddhaol (Gradd 3) yw cynnydd ers yr arolygiad diwethaf.

135. Mae nodweddion da i'r adroddiad hunan-arfarnu. Mae wedi ei drefnu'n effeithiol ac yn cynnig sylwadau ar elfennau o fewn y saith cwestiwn allweddol, mae'n cyfeirio at dystiolaeth ac yn nodi agweddau i'w datblygu. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon dadansoddol ac nid oes arfarniad digon manwl o'r Cyfnod Sylfaen er enghraifft. Nid yw'r cysylltiad yn glir rhwng y broses hunan-arfarnu a blaenoriaethau'r CDY.

136. Mae'r ysgol yn cymharu ei pherfformiad yn rheolaidd gydag ysgolion tebyg a chyda chanrannau lleol a chenedlaethol. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth bod yr ysgol wedi dadansoddi pam nad yw'r canlyniadau wedi codi i'r un graddau yn CA2 ag a wnaeth y ffigyrau cendlaethol. Nid yw targedau y CLl wedi bod yn ddigon heriol yn ystod y dair blynedd ddiwethaf.

137. Ers mis Medi mae'r pennaeth wedi ail strwythuro'r broses monitro i gynnwys y cydlynwyr pwnc ac wedi eu cynghori yn effeithiol wrth iddynt ymgymryd â'r dasg o fonitro eu pynciau a llunio adroddiadau pynciol. Er nad yw'r adroddiadau hyn yn rhan integredig o'r ddogfen hunan-arfarnu maent yn cynnig atodiad gwerthfawr iddi. Mae sylwadau nifer o'r cydlynwyr yn dangos eu bod yn adnabod eu pynciau ac yn awyddus i'w symud ymlaen.

138. O ganlyniad i newidiadau sylweddol fu yn aelodaeth y CLl yn ddiweddar, mae eu rôl hwy yn y broses hunan-arfarnu yn gyfyng. Fodd bynnag yn y cyfarfod cyn arolygiad roeddent yn dechrau dangos ymwybyddiaeth glir o gryfderau'r ysgol a lle'r oedd angen gwella.

139. Mae'r rhieni wedi derbyn holiaduron yn gofyn eu barn am yr ysgol ers peth amser. Y tymor yma maent wedi ymateb yn dda i holiadur manwl iawn. Nid yw amser wedi caniatáu dadansoddiad ohonynt hyd yma. Yn y cyfarfod rhieni cyn-arolygiad roeddent yn ffyddiog bod yr ysgol yn cymryd sylw o'u sylwadau.

140. Mae cyngor yr ysgol wedi ei hen sefydlu ac maent yn lleisio barn am nifer o faterion yn gysylltiedig â bywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn trafod yn hyderus materion yn ymwneud â bwyta'n iach a threfniadau chwarae yn yr iard er enghraifft. Mae aelodau cyngor yr ysgol yn cyfrannu'n bositif iawn ac yn ymarferol at wella ansawdd bywyd yr ysgol.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

141. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydfynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

142. Mae'r ysgol wedi ei staffio'n gymwys gyda athrawon sy'n meddu cymhwysterau a phrofiad; mae nifer ohonynt wedi bod yn yr ysgol am nifer o flynyddoedd. Mae ganddynt ystod dda o wybodaeth arbenigol i ymateb i anghenion yr holl disgyblion gan gynnwys y rhai ag AAA.

143. Yn ddiweddar mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus wrth gynyddu y nifer o staff cynorthwyol i gefnogi'r Cyfnod Sylfaen ac mae'r gymhareb athro a phlant yn addas. Mae'r staff cynorthwyol yn cael eu defnyddio'n dda ac maent wedi eu cynnwys yn dda ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae hyfforddiant addas wedi bod yn effeithiol er mwyn sicrhau bod eu rôl yn cael ei ddatblygu'n gymwys fel y gallant ddylanwadu'n bositif ar safonau yn y dosbarth.

144. Mae swydd ddisgrifiadau yn bodoli ar gyfer staff dysgu a chynorthwyol a chânt eu diweddaru'n gyson. Mewn rhai achosion mae rôl yr athrawon gyda chyfrifoldebau wedi datblygu'n dda. Mae'r cydlynydd technoleg gwybodaeth er enghraifft, wedi cael llawer o hyfforddiant i ddatblygu ei gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc ac mae wedi cael ei ddefnyddio'n effeithiol i godi safonau yn y pwnc ar draws yr ysgol. Mae staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol ar y cyfan i addysgu yn ystod cyfnodau Cynllunio, Paratoi ac Asesu o dan amodau gwaith newydd.

145. Mae adolygiadau rheoli perfformiad yn nodi anghenion hyfforddi athrawon yn dda ac yn cydnabod cyfrifoldebau. Maent wedi eu cysylltu'n agos gyda'r CDY.

146. Mae'r ysgrifenyddes yn gweithio'n effeithlon ac effeithiol i sicrhau fod yr ysgol yn gweithredu'n ddidrafferth o ddydd i ddydd. Mae'r gofalwr a'r staff glanhau yn rhoi gwasanaeth da i'r ysgol.

147. At ei gilydd mae gan yr ysgol gyflenwad da o adnoddau dysgu sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Mae peth diffygion yn yr adnoddau ar gyfer cerddoriaeth ac yn yr ystod o lyfrau Saesneg. Nid oes digon o lyfrau ar gyfer diddori bechgyn nac i gynnig digon o her i'r mwyaf galluog. Nid oes llyfrgell ysgol er bod casgliad o lyfrau ffeithiol yn cael eu cadw yn y coridor.

148. Mae ansawdd yr arddangosfeydd o gwmpas yr ysgol ac yn yr ystafelloedd dosbarth yn dda. Maent yn lliwgar ac yn dathlu gwaith a champau'r disgyblion.

149. Mae'r ysgol wedi ei lleoli mewn nifer o wahanol adeiladau sy'n peri anawsterau yn enwedig pan fo'r tywydd yn wael. Gwneir defnydd rhagorol o'r gofod sydd ar gael yn yr adeiladau ac mae'r staff yn gweithio'n ddiwyd, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen i greu amgylchedd addas ar gyfer addysgu a dysgu. Er bod rhai gwelliannau wedi digwydd i'r safle dros y blynyddoedd gan gynnwys pedair ystafell ddosbarth newydd, mae diffygion yn dal i fodoli, ac mae hyn yn gallu effeithio ar fywyd ysgol a darpariaeth gwricwlaidd.

150. Ar brydiau, mae'r gofod ar gyfer gweithgareddau ysgol gyfan yn y neuadd yn gyfyng ac mae'r lle'n annigonol ar gyfer darparu cwricwlwm addysg gorfforol. Nid oes lle addas i'r athrawon addysgu ac asesu disgyblion ag AAA, i roi gwersi cerdd peripatetig na lle ar gyfer llyfrgell ysgol.

151. Mae'r buarth, sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer chwarae yn yr awyr agored ac addysg gorfforol yn gyfyng, ac mae'r arwynebedd yn arw ac anwastad. Nid oes

cae gan yr ysgol ond mae'n gwneud defnydd da o barc cyfagos a'r pwll nofio lleol.

152. Rheolir y cyllid yn effeithiol gan y pennaeth a phwyllgor cyllid y CLl i sicrhau bod yr ysgol yn cael ei staffio a'i hadnoddi'n ddigonol er mwyn addysgu'r cwricwlwm a chyfarfod ag anghenion disgyblion. Mae'r gymdeithas rhieni yn cyfrannu at adnoddau sydd wedi eu blaenoriaethu.

153. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwariant yn cael eu nodi'n ofalus ac yn cael eu monitro'n gyson. Caiff adnoddau eu costio yn ofalus a'u cyfateb i'r blaenoriaethau yn y CDY. Adolygir y defnydd o eitemau costus sy'n cael eu prynu ac mae'r pennaeth yn adrodd ar ei effeithiolrwydd. Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Y Cyfnod Sylfaen Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Datblygiad personol, cymdeithasol a lles

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion rhagorol

154. Yn B1 mae'r plant yn arddangos hyder neilltuol wrth iddynt archwilio ac arbrofi yn y gwahanol ardaloedd symbylus a gynllunir ar eu cyfer.

Nodweddion da

155. Yn y dosbarth meithrin mae plant yn ymddwyn yn gyfrifol. Maent yn deall bod angen cymryd tro a rhannu ac maent yn dangos hunan-reolaeth da. Yn gynyddol, dônt yn ymwybodol bod angen bod yn ofalus wrth ddringo'r grisiau o un o'u ystafelloedd chwarae i'r llall. Dysgant bod cael helpu eu ffrindiau yn fraint a bod dweud diolch yn rhywbeth pwysig sy'n rhoi pleser. Deallant bod chwarae'n deg a gwneud gwaith da yn agweddau i'w canmol. Mae eu hymwybyddiaeth o hylendid personol yn datblygu'n dda.

156. Mae plant y dosbarth derbyn yn deall bod angen cwrteisi wrth eraill a bod gwrando ar ymatebion ei gilydd yn rheol bwysig. Wrth wrando ar gerddoriaeth dangosant fesur da o hunan-ddisgyblaeth. Gall y mwyafrif wisgo a dadwisgo ar gyfer gwers addysg gorfforol yn annibynnol, gallant chwarae rôl yn realistig ac maent yn ymdopi â phob math o chwarae. Deallant bod cael ffrind da yn bwysig a bod rhaid rhoi gofal i anifeiliaid a phlanhigion.

157. Yn B1 mae plant yn cydweithio'n dda gydag amrywiaeth o ffrindiau ac yn gwneud dewisiadau da. Maent yn brysur drwy'r adeg. Trefnant eu hunain yn dda, cadwant ar dasg a chanolbwyntiant a dangosant ddiddordeb yn eu dysgu a'u chwarae. Gallant wneud eu penderfyniadau eu hunain yn hyderus. Maent yn barod i sgwrsio am eu teimladau a'u emosiynau. Maent yn deall bod angen

gwisgo'n addas ar gyfer mynd am dro a bod angen golchi dwylo ar ôl chwarae mewn compost a chyn bwyta bwyd. Gwerthfawrogant fod pawb yn wahanol.

158. Yn B2 mae plant yn deall bod rheolau yn bwysig er mwyn gwella ansawdd bywyd yn y dosbarth a hwyluso sesiynau dosbarth cyfan yn y neuadd. Deallant bod angen iddynt ymdawelu ar brydiau. Maent yn chwarae ar eu pennau eu hunain ac mewn grwpiau yn ddiddig. Derbyniant na allant gael eu dewis eu hunain o weithgaredd bob tro. Gwnânt ddewisiadau yn hyderus a dangosant annibyniaeth a dyfalbarhad wrth ganolbwyntio i orffen y weithgaredd. Maent yn ymfalchio pan dderbyniant glôd ac maent yn awyddus i blesio'r oedolion yn y dosbarth.

Diffygion

159. Nid oes diffygion pwysig ond ar ben uchaf y cyfnod nid yw'r plant bob amser yn gwneud digon o ddewisiadau o fewn sesiwn.

Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

160. Yn y dosbarth meithrin mae plant yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau yn Gymraeg ac yn dangos dealltwriaeth ohonynt trwy ymateb yn gywir. Maent yn defnyddio geiriau a dywediadau allweddol yn hyderus a gallant gymryd rhan mewn trafodaethau syml am eu newyddion, eu teulu a'u cartrefi. Gallant gynnig sylwadau cywir sy'n disgrifio'r tai maent yn eu gweld pan ânt am dro. Ynganant weddi syml yn glir fel dosbarth. Maent yn dangos dealltwriaeth o stori'r Nadolig ac yn gwybod beth sy'n digwydd yn stori 'Y Tri Mochyn Bach'. Maent yn ymdrechu i drefnu llythrennau magnetig ar fwrdd gwyn ac mae nifer yn gallu adnabod eu henwau ac enwau eraill ar gardiau. Maent yn dechrau gwneud marciau mewn nifer o wahanol gyfryngau gan gynnwys ar bapur.

161. Mae plant y dosbarth derbyn yn gallu gofyn cwestiynau perthnasol a'u hateb yn synhwyrol; defnyddiant iaith addas wrth chwarae rôl yn y ty bach twt ac wrth ail-drefnu tŷ Sali Mali. Gallant ddefnyddio patrymau iaith syml wrth siarad am bobl sy'n helpu yn y gymuned. Maent yn adalw nifer o hwiangerddi ac yn dangos dealltwriaeth ohonynt. Gwrandawant ar gasetiau stori yn frwdfrydig ac maent yn deall rhediad y stori. Maent yn adnabod llawer o gymeriadau stori a defnyddiant luniau yn dda i ddehongli stori. Gallant labeli rhai lluniau'n gywir ac maent yn datblygu yn eu gallu i ysgrifennu symbolau ar bapur.

162. Mae plant B1 yn siarad yn hyderus gan fynegi eu hunain yn glir. Dewisant eiriau addas wrth sgwrsio am eu rôl mewn 'ogof' a defnyddiant iaith sy'n briodol i sefyllfaoedd amrywiol y dosbarth. Trafodant ymweliad â pharc y Gnoll yn frwdfrydig. Mae'r ystumiau a'r symudiadau a wnânt wrth ddarllen storiau yn dangos dealltwriaeth o'r testun. Maent yn adnabod seiniau cychwynnol a therfynol geiriau ac yn sillafu geiriau syml yn gywir. Maent yn adnabod geiriau ar

sgrîn y cyfrifiadur a gallant newid geiriau i ffurfio rhai eraill. Deallant sut ddylai cerdyn post edrych a ysgrifennant restri o ddillad sydd eu hangen i fynd i'r parc. Ysgrifennant bosteri i'w harddangos o amgylch yr ysgol yn hysbysebu bod yr arth ar goll.

163. Mae plant B2 yn gwrando'n dda ac yn ymestyn eu gafael ar y Gymraeg yn briodol i'w hoed a'u gallu. Sgwrsiant yn hyderus am ymweliad ag eglwys gan ddefnyddio termau priodol. Maent yn mynegi barn ac yn gallu sôn yn ymestynnol am eu profiadau a'u newyddion. Mewn grwpiau adroddant stori'r Nadolig yn fanwl ar eu côf i weddill y dosbarth. Maent yn pori mewn llyfrau yn frwdfrydig ac yn dechrau dangos hyder yn yr ysgrifennu pwrpasol â wnânt. Maent yn dechrau ymddwyn fel awduron wrth iddynt ddeall y gwahanol ffurf sydd i lythyr a rhestr.

Diffygion

164. Nid oes diffygion pwysig

Datblygiad mathemategol

Nodweddion da

165. Trwy eu gweithgareddau ymarferol a thrafodaeth, mae plant y dosbarth meithrin yn datblygu dealltwriaeth dda o rif mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Maent yn dechrau ymgyfarwyddo gyda'r symbolau amdanynt ac yn gallu enwi rhifau yn y drefn gywir. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o rif tri, er enghraifft, wrth iddynt drafod stori'r 'Tri Mochyn Bach'. Maent yn deall cysyniadau yn ymwneud gyda phwyso wrth iddynt ddefnyddio cynhwysyddion mewn dŵr, tywod a reis a'u llenwi yn 'hanner llawn' neu yn 'llawn'. Maent yn gallu enwi nifer o siapiau dau-ddimensiwn ac yn deall rhai o'u nodweddion.

166. Yn y dosbarth derbyn mae plant yn cyfrif yn hyderus. Maent yn cymhwyso eu gwybodaeth yn dda wrth iddynt ffurfio rhifau mewn tywod a thoes a gyda sialc a phaent. Dangosant eu gwybodaeth am werth rhif wrth iddynt chwarae gyda gwrthrychau yn yr ardal awyr agored. Rhoddant y rhifau yn eu trefn cywir wrth greu dilyniant ohonynt. Maent yn adnabod siapiau sydd i'w gweld o gwmpas yr ysgol. Wrth chwarae rôl yn y siop, deallant beth yw pwrpas arian ac mae ganddynt wybodaeth dda am enwau rhai darnau arian mân.

167. Mae plant B1 yn adnabod eilrifau ac odrifau i fyny hyd at 30. Gallant gyfrif mewn degau i gant a threfnant rifau'n gywir ar y sgwâr cant. Maent yn cyfrif yn ôl o 20 i sero yn gywir a gallant ddarganfod bondiau rhif sy'n gwneud saith, er enghraifft. Mae ganddynt wybodaeth sicr o ddilyniant yn nhermau dyddiau'r wythnos a thymhorau'r flwyddyn. Gallant drafod unedau o amser megis awr a hanner awr a deallant arwyddocad rhoi pethau ar linell amser. Mae eu hiaith fathemategol lleoliad yn datblygu'n dda.

168. Mae dealltwriaeth plant B2 o rifau yn datblygu'n dda wrth iddynt adnabod rhifau a'u ffurfio yn gywir. Maent yn hollol hyderus wrth drefnu bondiau rhif ac yn deall arwyddion mathemateg wrth ddatrys problemau. Mae mwyafrif y plant yn

datblygu geirfa fathemategol gywir mewn sefyllfaoedd pwrpasol. Didolant eilrifau ac odrifau a chwiliant am batrymau yn llwyddiannus. Mae eu gwaith ymchwiliol i batrwm yn ymsefydlu dealltwriaeth pwrpasol o gymesuredd. Mae nifer o'r plant yn mesur mewn unedau safonol a gallant drafod yr amser ar y cloc gyda'r rhai mwyaf galluog yn adnabod unedau o chwarter awr ac yn dechrau darllen yr amser ar gloc digidol.

Diffygion

169. Nid oes diffygion pwysig

Gwybodaeth a dealltwriaeth y byd

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion rhagorol

170. Mae chwilfrydedd plant B1 wrth ddechrau darganfod sut mae'r byd yn gweithio yn heintus. Yn dilyn taith gerdded i Barc y Gnoll mae adrodd am eu helyntion wrth chwilio'r arth yn fusnes cyffrous a difrifol iawn. Gallant nodi yr adnoddau dynol sydd yn y parc a gallant fanylu ar y nodweddion naturiol sydd ynddo. Deallant pa anifeilaid gall fod yn cuddio yn y coed. Maent yn deall bod gwisgo sgidiau addas ar gyfer ymchwilio er mwyn darganfod pethau yn y parc yn angenrheidiol. Maent yn gallu nodi'r gwahanol fath o dai a welant yn y strydoedd o gwmpas yr ysgol ac maent yn dechrau deall y gwahaniaeth rhwng tŷ pâr, tŷ teras a thŷ ar ei ben ei hun. Deallant bod yna ddefnyddiau gwahanol a bod rhai yn newid wrth eu plygu a'u hymestyn.

Nodweddion da

171. Yn yr ardal tu allan mae'r plant meithrin yn rhyfeddu at bwer y gwynt wrth i swigod gael ei chwythu i bob cyfeiriad ac wrth i siâp y cymylau newid o flaen eu llygaid. Maent yn deall bod rhai deunyddiau'n gallu newid ac arbrofant gyda deunyddiau megis blawd sych a gwlyb. Creant 'eira' allan o flawd a gwyddant sut mae iâ yn ffurfio. Maent yn defnyddio llawer o ddeunyddiau a chyfryngau yn llwyddiannus i adeiladu ty i'r tri mochyn bach yn ei stori. O ganlyniad i'w taith gerdded o gwmpas ardal yr ysgol, sylweddolant pa fath o adeiladau sydd yn yr ardal a gallant enwi rhannau pwysig ohonynt trwy edrych ar wahanol luniau yn y dosbarth.

172. Yn y dosbarth derbyn mae plant yn gallu trafod y newidiadau sydd yn digwydd yn y tywydd o ddydd i ddydd. Deallant bod rhai gwrthrychau yn arnofio tra bod eraill yn suddo mewn dŵr a bod gan bethau gwahanol arogl. Deallant bod gan bobl megis yr heddlu wahanol fathau o swyddi o fewn y gymuned. O fewn cymuned yr ysgol gallant nodi swyddi'r oedolion sydd o'u cwmpas. Maent yn deall bod na amrywiaeth o dasgau y gellir gwneud ar y cyfrifiadur ac maent yn dysgu'n gyflym sut mae rhannau'r cyfrifiadur yn gweithio, megis sut y gellir rheoli'r cyrchwr a symud pethau o gwmpas y sgrîn. Deallant hefyd sut mae ffwrn meicrodon yn gweithio.

173. Yn B2 mae plant yn dangos diddordeb mawr wrth ymweld ag eglwys ac maent yn deall ei bod yn fan lle disgwylir iddynt ymdawelu a dangos parch. Maent yn deall bod y ficer yn berson pwysig yn yr eglwys a llwyddant i gymharu dwy eglwys gyfagos a dysgu am yr arteffactau sydd ynddynt. Deallant bod yna ystod o wahanol fathau o deganau ac y gellir eu defnyddio mewn gwahanol ffyrdd. Wrth ymweld â'r parc dechreuant ddeall cylch bywyd y broga wrth iddynt gasglu penbyliaid. Defnyddiant eiriau megis 'rhaeadr' i ddisgrifio beth sydd yno ac mae eu rhwbiadau o risgl coed yn dangos eu bod yn sylweddoli sut mae boncyffion coed yn edrych a theimlo.

Diffygion

174. Nid oes diffygion pwysig.

Dealltwriaeth amlddiwylliannol.

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

175. Yn y dosbarth meithrin mae plant yn ymgyfarwyddo â'u diwylliant eu hunain ac yn datblygu dealltwriaeth dda o ddathliadau sy'n rhan o fywyd Cristnogion. Maent yn gallu adnabod rhai cymeriadau sy'n ganolig i wyl y Nadolig. Anfonant Tedi ar wyliau ar draws y byd gyda ffrindiau ac wrth edrych ar ffotograffau o hyn, maent yn dysgu bod tirlun, bwyd a gwisgoedd yn newid o le i le. Maent yn cofnodi taith Sali Mali i'r India mewn llyfr.

176. Mae plant y dosbarth derbyn yn canu cân yn dweud 'Helo' mewn sawl iaith. Dysgant sut y dethlir gŵyl y Nadolig yn Norwy gan gymharu'r arferion gyda'r hyn a wyddant hwy am ddathliadau'r Nadolig yng Nghastell Nedd. Gallant weld y gwahaniaeth rhwng tŷ yn y wlad honno gyda thai yn eu cynefin hwy. Maent yn deall bod patrymau a lliwiau llachar yn bwysig yng ngwledydd Affrica a dangosant fwynhad a chwilfrydedd wrth brofi ffrwythau'r cyfandir honno megis 'paw paw'.

177. Yn B1 mae plant yn deall sut mae pobl eraill yn byw dan amodau gwahanol a bod yn rhaid parchu pawb beth bynnag fo lliw eu croen a'u gwisg. Deallant bod rhai yn byw ger Pegwn y Gogledd a dechreuant sylweddoli sut mae tirwedd yn effeithio ar eu bywydau a pham felly mae eu cartrefi a'u hanifeiliaid yn wahanol i'n rhai ni. Deallant hefyd bod bywyd Kabo yn yr Affrig a Jakata yn yr India yn gwahaniaethu'n fawr o'u bywyd hwy. Gwyddant bod yn bosibl dod o hyd i'r mannau hynny ar y glôb ac ar fap. Defnyddiant storiau yn dda i gadarnhau eu dealltwriaeth. Mae ymweliadau, megis ymweliad a wnaethant â'r café Eidalaidd, yn eu dysgu am fwydydd gwledydd agosach yn Ewrop.

178. Yn B2 mae plant yn deall traddodiadau sy'n rhan o fywyd y Cristion a nifer o arferion sy'n gysylltiedig â gwyliau Cristnogol yn enwedig y Nadolig. Mae eu hymweliadau ag eglwys leol yn cadarnhau eu dealltwriaeth. Deallant fod bywyd yn Tseina yn wahanol iawn a bod gwahaniaethau sylfaenol yn y ffordd maent yn bwyta ac yn y ffordd maent yn cyfathrebu yn ysgrifenedig. Maent yn defnyddio stori Rama a Sita yn bwrpasol i ddeall bywyd yn India ac maent yn creu

patrymau ar ddwylo a gwneud lampau Divali i ddeall y diwylliant honno'n fwy effeithiol.

Diffygion

179. Nid oes diffygion pwysig

Datblygiad corfforol

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

180. Mae plant ar draws y Cyfnod Sylfaen yn datbygu sgiliau corfforol da yn yr ardaloedd awyr agored. Datblygant ymwybyddiaeth dda o wagle wrth iddynt symud o gwmpas eu gweithgareddau. Defnyddiant eu cyrff yn dda i reoli a llywio beiciau o wahanol faint. Maent yn neidio'n llwyddiannus o un boncyff coeden i'r llall yn y cylch boncyffion ar yr iard, ac maent yn trin a thrafod offer palu yn ddiwyd a gofalus.

181. Mae plant y dosbarth meithrin yn sefydlu sgiliau da wrth ymgymryd â gweithgareddau corfforol yn y neuadd. Maent yn defnyddio gwagle yn synhwyrol ac yn gallu rheoli symudiadau cerdded, rhedeg a neidio wrth iddynt deithio mewn gwahanol ffyrdd. Defnyddiant eu cyrff yn effeithiol i wneud symudiadau sy'n efelychu dail a phlu eira'n disgyn. Datblygant sgiliau trin a thrafod offer gan gynnwys blociau mawr a bach yn gynyddol effeithiol ac maent yn hyderus wrth ddylunio gyda thoes ac wrth drin darnau bach mewn gemau bwrdd. Defnyddiant offer arllwys a llenwi yn y twba dwr a reis yn llwyddiannus a gallant drin offer paentio yn ddidrafferth wrth wneud tai allan o gardfwrdd. Mae eu sgiliau trafod amrywiaeth o offer ysgrifennu yn datblygu'n dda wrth iddynt dynnu lluniau a gwneud marciau.

182. Yn y dosbarth derbyn mae plant yn adeiladu gyda blociau, yn gwnio gyda lasys, yn cwblhau jigsos ac yn torri gyda sisyrnau yn effeithiol. Gwnant fodelau jync gan ddangos sgiliau trin da wrth weithio'n ddiwyd. Maent yn llwyddo i greu marciau sy'n cynrychioli nifer o symbolau wrth ddal amrywiaeth o bensiliau a chreonau. Dilynant gyfarwyddiadau yn gywir yn y neuadd a dechreuant sylweddoli bod ymarfer corfforol yn cael effaith ar eu cyhyrau a'u hanadl. Gallant symud ar wahanol lefelau gan efelychu symudiadau amrywiaeth o anifeiliaid. Gallant amrywio siâp eu cyrff gan lwyddo i'w newid i siapiau uchel ac isel. Mae eu sgiliau taflu pêl yn datblygu'n dda wrth iddynt sefydlu cydlyniad llaw a llygad.

183. Yn B1 mae plant yn symud yn ofalus mewn gwersi datblygiad corfforol ffurfiol gan ddangos ymwybyddiaeth dda o'r angen am ddiogelwch. Datblygant reolaeth dda dros eu cyrff wrth iddynt greu symudiadau araf a chyflym, uchel ac isel. Defnyddiant wahanol rannau o'u cyrff i deithio ar y llawr gan gryfhau cyhyrau yn eu breichiau, eu coesau a'u cefnau. Newidiant siapiau eu cyrff yn ddidrafferth. Dechreuant greu dilyniant o symudiadau sy'n cyplysu gyda'i gilydd yn llyfn. Mae eu sgiliau taflu, bowndio a derbyn peli yn datblygu yn effeithiol. Mae'r mwyafrif

yn hyderus wrth wisgo esgidiau a dillad addas i fynd am dro ac yn gallu gwisgo fyny fel eirth wrth chwarae rôl yn annibynnol. Maent yn trafod offer bach wrth weithio'n ddiwyd gyda chompost a dail yn fedrus, ac mae eu rheolaeth dros offer ysgrifennu a thynnu llun yn drawiadol.

184. Yn B2 mae plant yn defnyddio siswrn yn dda i dorri lluniau o gatalogau ac yn eu gludo yn effeithiol. Maent yn trafod amrywiaeth o offer ysgrifennu yn bwrpasol a mân offer yn gysylltiedig gyda gemau bwrdd, yn llwyddiannus. Deallant pa gyhyrau sy'n gweithio wrth iddynt deithio; plygant a sythant eu coesau ar wahanol lefelau a dangosant dyndra yn eu cyrff. Newidiant gyfeiriad wrth redeg yn y neuadd yn llwyddiannus. Deallant bwysigrwydd diogelwch wrth ddringo ar offer yn y neuadd a gallant weithio yn annibynnol neu mewn grwpiau bach arno ac maent yn arddangos eu symudiadau i eraill yn hyderus. Maent yn datblygu sgiliau cydbwyso da. Deallant bod ymarfer corfforol yn cael effaith ar eu hanadl a churiad y galon.

Diffygion

185. Nid oes diffygion pwysig

Datblygiad creadigol

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

186. Yn y dosbarth meithrin mae plant yn gallu canu nifer o ganeuon gan gynnwys rhai tymhorol a Nadoligaidd, rhai traddodiadol a chaneuon sy'n cadarnhau patrymau iaith. Maent yn geirio'n glir, yn cadw tonyddiaeth yn dda ac yn gwneud symudiadau corfforol addas er mwyn dehongli hwiangerdd a chân. Maent yn trafod offerynnau cerdd yn bwrpasol a chywir. Gweithiant mewn nifer o gyfryngau ac maent yn mwynhau defnyddio paent wrth wneud cartref i'r ' Tri Mochyn Bach' ac wrth greu portreadau realistig ohonynt hwy eu hunain i'w harddangos yn oriel gelf y dosbarth. Maent yn gwisgo i fyny ac yn chwarae rôl yn synhwyrol.

187. Yn y dosbarth derbyn mae plant yn defnyddio paent yn dda ac yn deall y posibiliadau sy'n gallu digwydd o gymysgu lliwiau. Maent yn creu nifer o batrymau hyfryd wrth efelychu patrymau Affricanaidd ac yn dewis lliwiau llachar. Defnyddiant sbwng yn effeithiol wrth baentio ac maent yn trafod amrywiaeth o frwshys tew a tenau i greu lluniau deniadol. Mae eu lluniau o bobl sy'n eu helpu yn realistig iawn. Arbrofant yn frwdfrydig gyda jync i greu car heddlu. Mae nifer yn arbrofi yn fentrus gyda lliw a siâp ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol

188. Mae plant B1 yn archwilio lliw gan ddefnyddio gwahanol gyfryngau ac yn cymysgu lliwiau'n bwrpasol; peintiant stori ar stribed hir o bapur gan gyfleu ei dilyniant yn y stori. Maent yn arbrofi gyda rhaglenni cyfrifiadur yn effeithiol i greu lluniau a gwneud dewisiadau. Maent yn chwarae rôl yn effeithiol yn 'ogof' y dosbarth ac yn defnyddio llais a chorff yn dda i actio stori 'Hela'r Arth'. Ail greant y stori yn effeithiol yn y twba tywod a chreant olion traed wrth ymgolli yn

y stori o chwilio'r arth. Lluniant furlun effeithiol yn eu hatgoffa o'u hymweliad i'r Gerddi Botaneg Cenedlaethol. Creant luniau realistig o awyrennau, bysiau a threnau a gludiant ddeunyddiau naturiol o'r amgylchedd i wneud lluniau deniadol. Maent yn canu ystod o ganeuon yn frwdfrydig.

189. Yn B2 mae plant yn paentio yn effeithiol. Maent yn mwynhau defnyddio ystod o ddeunyddiau i greu preseb allan o focsys ac maent yn creu lluniau realistig o eitemau sy'n gysylltiedig â'r Nadolig. Creant ffenestri lliw deniadol a lampau Divali lliwgar. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o deinameg ac yn dewis offerynnau yn briodol i greu cerddoriaeth i gydfynd gyda charol Nadolig. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ba symudiadau sy'n angenrheidiol i'w chwarae; maent yn taro a'u hysgwyd yn briodol. Maent yn creu sgriptiau diddorol yn cyfleu stori'r Nadolig ac yn chwarae rôl yn dda wrth berfformio'n hyderus o flaen eu ffrindiau.

Diffygion

190. Nid oes diffygion pwysig ond nid yw plant B2 yn gwneud digon o ddewisiadau eu hunain wrth ymgymryd â gwaith creadigol.

Saesneg CA 2 Gradd 3: nodweddion da yn gorbwyso diffygion

Nodweddion da

191. Mae'r disgyblion yn arddangos sgiliau gwrando rhagorol ac yn ymateb yn briodol. Llwyddant i ofyn ac ateb cwestiynau yn ddeallus. Maent yn llefaru yn glir ac yn gywir, ac maent yn cyfrannu'n hyderus i drafodaethau pâr, grwp a dosbarth. Gallant fynegi barn a chyflwyno gwybodaeth neu syniadau yn dda.

192. Mae disgyblion ar draws CA2 yn datblygu fel darllenwyr. Gallant ddarllen amrywiaeth o destunau, gyda chryn gywirdeb a mynegiant perthnasol yn ôl eu hoedran a'u gallu. Defnyddia'r mwyafrif sgiliau effeithiol wrth dad-ddynodi geiriau a hunan-gywiro wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd.

193. Ar draws CA2 mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o'r gwahaniaeth rhwng llyfrau cyfair a llyfrau ffuglen, ac maent yn gyfarwydd â chonfensiynau llyfrau. Gall y mwyafrif drafod cymeriadau a digwyddiadau stori yn effeithiol, a rhagfynegi datblygiad tebygol y cynllun. Gallant fynegi barn am hoff gymeriadau.

194. Mae disgyblion ym mhob dosbarth ar draws CA2 yn ysgrifennu i amryw bwrpasau a chynulleidfaoedd, ac yn defnyddio ystod o wahanol ffurfiau yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ofynion ysgrifennu llythyr, stori, dyddiadur, erthygl papur newydd, darn disgrifiadol a thraethawd yn mynegi barn.

195. Gall mwyafrif disgyblion B3 a B4 ysgrifennu adroddiad sydd ddim yn gronolegol mewn paragraffau trefnus ac ystyrlon, gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd ar lif ddeiagram.

196. Yn B5 a B6 llwydda mwyafrif y disgyblion i ysgrifennu sgript drama mewn iaith gyfoes wedi ei seilio ar 'Macbeth' neu chwedl 'Blwch Pandora'. Dangosant ymwybyddiaeth dda o ddilyniant digwyddiadau ac o gonfensiynau'r ffurf.

197. Ar draws CA2 mae disgyblion yn datblygu'r hyder i gyfansoddi barddoniaeth gan efelychu mathau o gerddi megis acrostig, haiku a cinquain. Dealla disgyblion B5 ofynion y ffurf 'kennings'.

Diffygion

198. Nid oes gan nifer o ddisgyblion CA2 wybodaeth ddigonol o ffoneg i'w galluogi i ddad-ddynodi geiriau anghyfarwydd, ac i sillafu'n gywir.

199. Prin yw'r dystiolaeth o ysgrifennu estynedig gan y disgyblion

200. Nid yw sgiliau ail-ddrafftio, sgiliau llawysgrifen a chyflwyno gwaith wedi datblygu'n ddigonol ar draws y cyfnod allweddol.

Mathemateg CA2 Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

201. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn natblygiad eu sgiliau mathemategol ac mae nifer ohonynt yn arddangos lefelau uchel o ddiddordeb yn eu gwaith. Yn gyffredinol, maent yn defnyddio geirfa fathemategol yn gynyddol dda ac yn egluro eu gwaith a'r dulliau a ddefnyddiant i'w wneud yn glir. Yn aml gweithiant yn ddiwyd a chywir ac mae nifer yn cofnodi eu gwaith yn daclus. At ei gilydd, gwnânt gynnydd da wrth gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth tra'n datrys problemau ysgrifenedig.

202. Mae'r disgyblion ar ben isaf y cyfnod allweddol yn defnyddio'r bedair reol rhif yn hyderus ac yn eu cymhwyso'n gywir wrth ddatrys problemau. Mae ganddynt syniad da o werth lle ac mae'r mwyafrif yn defnyddio eu gwybodaeth gynyddol o dablau wrth iddynt rannu a lluosi.

203. Mae'r disgyblion ifancaf yn gwybod am unedau amser a'r berthynas rhyngddynt. Gŵyr y mwyafrif sut i newid amser rhwng clociau analog a rhai digidol.

204. Mae'r disgyblion ifancaf yn gwybod ac yn defnyddio geirfa bwrpasol i ddisgrifio nodweddion siapiau dau a thri dimensiwn. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gymesuredd a gallant nodi llinellau cymesur mewn siapiau dau ddimensiwn yn dda.

205. Mae'r disgyblion ar ben uchaf yr ysgol yn datblygu gwybodaeth dda o siâp a mesur. Defnyddiant amrywiol unedau ansafonol i fesur hyd a phwysau a dechreuant ddefnyddio mesurau safonol yn gywir. Mae disgyblion o bob gallu yn B5 yn mesur yn ofalus a chywir gan ddefnyddio unedau safonol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o nodweddion siapiau cymhleth dau a thri dimensiwn ac mae

ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r berthynas rhwng degolion, ffracsiynau a chanrannau.

206. Mae disgyblion hynaf ar draws yr ystod gallu yn gadarn yn eu dealltwriaeth am berimetr siâp syml. Mae'r mwyafrif yn gallu darganfod perimedr siapiau cymhleth, gan weithio ar eu fformiwla eu hunain a'u cymhwyso yn effeithiol iawn. Maent yn defnyddio a dehongli cyfesurynnau yn hyderus gan ddarlunio siapiau dau ddimensiwn mewn gwahanol gyfeiriannau ar gridiau.

207. Mae disgyblion ar ben uchaf yr ysgol yn ymchwilio a chasglu gwybodaeth am dai'r disgyblion ac yn cofnodi data trwy ddefnyddio graffiau a deiagramau ac yn dehongli eu darganfyddiadau mewn graffiau bar, pictogramau a graffiau llinell. Defnyddiant TGCh yn dda i ddangos eu darganfyddiadau. Mewn rhai dosbarthiadau mae disgyblion yn gwneud defnydd da o sgiliau TGCh i gyfoethogi eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol a sgiliau mathemateg y pen.

Diffygion

208. Nid oes diffygion pwysig ond mewn rhai dosbarthiadau nid yw strategaethau disgyblion wrth ddefnyddio a chymhwyso mathemateg yn eu tasgau ymchwiliol ymarferol wedi datblygu'n ddigonol.

Technoleg Gwybodaeth CA2: Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

209. Mae safonau wedi gwella'n arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf. Mae disgyblion o bob gallu yn dangos agweddau positif at y pwnc ac maent yn cymhwyso eu sgiliau yn dda mewn nifer o gyd-destunau.

210. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut mae achub eu gwaith mewn ffolderi unigol. Maent yn creu copiau gorau deniadol o'u gwaith gan ddefnyddio ystod o ffontiau a nodweddion eraill. Mae'r disgyblion ifancaf yn mewnbynnu lluniau camera digidol i destun yn dda.

211. Mae disgyblion yn defnyddio ac yn medru egluro nifer o nodweddion ar y rhaglen 'Windows' yn gywir. Maent yn gallu uwchliwio, golygu, torri a phastio yn gelfydd, gan arbrofi i greu testunau darluniadol o storiau, barddoniaeth a gweddîau mewn ystod o ffontiau a lliwiau. Mae'r mwyaf galluog yn meddu ar sgiliau bysellfwrdd sydd wedi datblygu'n dda, gan sicrhau eu bod yn mewnbynnu testun yn gyflym. Mae B4 yn defnyddio eu sgiliau'n effeithiol i gynhyrchu copiau gorau o straeon megis 'The Baker's Cat'. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio meddalwedd cyhoeddi yn effeithiol i gynhyrchu sylwebaeth ddiddorol ar ddull papur newydd yn y 'Margam Mail' gan fewnbynnu lluniau a delweddau eraill i'r testun.

212. Mae disgyblion hŷn yn creu basdata yn hyderus. Maent yn trefnu gwybodaeth yn ôl meini prawf amrywiol ac yn cynhyrchu graffiau bar a siartiau cylch i

ddarlunio eu gwaith. Yn eu gwaith ymchwiliol ar dai maent yn arddangos eu darganfyddiadau yn dda, gan weithio'n annibynnol wrth gynnwys lluniau o'r rhyngrwyd. Maent yn defnyddio'r rhaglen Logo yn effeithiol er mwyn archwilio patrymau ac yn cael canlyniadau diddorol. Maent yn egluro eu penderfyniadau a chanlyniadau eu gwaith modelu yn dda.

213. Mae disgyblion yn defnyddio meddalwedd Textease yn effeithiol iawn ar gyfer gwaith celf. Mae disgyblion B3 yn creu lluniau deniadol o'r oleulong Helwick yn dilyn ymweliad ag Amgueddfa'r Glannau. Creant luniau lliwgar o Barc y Gnoll a phatrymau diddorol. Mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio rhaglen baent gyda Windows a Clipart i gynhyrchu gwaith yn arddull Andy Warhol. Maent yn symud patrwm ailadroddus i ffurfiau gwahanol, gan newid siâp a lliw yn effeithiol.

214. Mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio e-bost yn hyderus i gyfathrebu gydag ysgol leol yn ogystal a chyda dosbarthiadau eraill yn yr ysgol. Maent hefyd yn cyfathrebu gydag ymwelwyr â'r ysgol megis Theatr Na'nog cyn ac ar ôl ei ymweliad.

215. Mewn rhai dosbarthiadau dengys y disgyblion ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad da o'r bwrdd gwyn rhyngweithiol. Maent yn ei ddefnyddio'n dda ac yn mwynhau gwneud hynny'n annibynnol neu gydag eraill, i ddatrys problemau mathemategol, er enghraifft.

Diffygion

216. Nid oes diffygion pwysig.

Dylunio a thechnoleg CA 2: Gradd 3: nodweddion da yn gorbwyso diffygion

Nodweddion da

217. Mae disgyblion ar draws CA2 yn defnyddio offer yn ddiogel, ac maent yn ymwybodol o risgiau a pheryglon.

218. Yn y dosbarthiadau lle gwelir yr arfer gorau, mae disgyblion yn datblygu sgiliau gweithio'n annibynnol, gan ddod yn fwyfwy hyderus am y broses o ddylunio, gwneud, profi, gwerthuso ac awgrymu gwelliannau.

219. Mae disgyblion B3 a B4 yn arddangos sgiliau gwerthuso priodol wrth ddisgrifio'r broses o greu lampau. Cofnodant eu briff dylunio, eu harchwiliad o syniadau, eu casgliadau o ddeunyddiau ac offer, a'r broses dylunio a'r gwneud. Gallant werthuso'r cynnyrch gorffenedig ac awgrymu gwelliannau.

220. Llwydda disgyblion B3 i ddylunio brechdan iachus a phecyn sydd yn addas at y pwrpas. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd glendid a diogelwch wrth dorri a chymysgu'r cynhwysion, ac yn trafod golwg a blas y cynnyrch yn frwdfrydig.

221. Yn B4 mae disgyblion yn datblygu sgiliau creu da wrth ddylunio cynwysyddion arian. Defnyddiant ffabrigau a phriodweddau gwahanol, a dewisant dechnegau

uno ac addurniadau amrywiol. Gwerthusant y cynnyrch gorffenedig er mwyn darganfod a ydynt yn addas at y pwrpas.

222. Defnyddia disgyblion B5 a B6 sgiliau archwilio a dylunio da wrth greu modelau o gysgodfannau. Gwnânt ddefnydd priodol o dechnoleg gwybodaeth i gasglu syniadau, a llwyddant i greu prototeip o wellt er mwyn gwerthuso siâp, cryfder a'r adeiladwaith orau. Darganfyddant gryfder y dull jinx o gysylltu deunyddiau a dewisant fodd addas i addurno eu cysgodfannau. Gwerthusant eu modelau er mwyn darganfod pa rai all wrthsefyll orau pwysau un cilogram, grym aer sychwr gwallt am 30 eiliad ac arllwys 200 mililitr o ddŵr ar y to.

223. Fel rhan o'u gwaith ar sain, mae disgyblion B5 yn dylunio offerynnau cerdd a all gynhyrchu dau nodyn. Datblygant ymwybyddiaeth o briodweddau deunyddiau a'u heffaith ar y sain a gynhyrchir.

224. Mae disgyblion B6 yn defnyddio deunyddiau a thechnegau priodol wrth ddylunio sliperi i aelodau o staff yr ysgol. Datblygant ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd golwg esthetig y cynnyrch gorffenedig yn ogystal â'u gwerth ymarferol.

Diffygion

225. Prin yw profiadau disgyblion mewn rheoli a mecanweithiau ar draws y cyfnod allweddol.

226. Mae sgiliau disgyblion yn gweithio gydag amrediad o ddeunyddiau, technegau ac offer, ac o ddadosod er mwyn archwilio yn gyfyngedig.

227. Nid yw'r defnydd o fesuriadau safonol wth ddylunio a gwneud yn gyson ar draws y cyfnod allweddol.

Cerddoriaeth CA2 Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

228. Mae disgyblion ar draws CA2 yn gwrando'n bwrpasol ar gerddoriaeth yn gyson. Maent yn ymgyfarwyddo gyda cherddoriaeth adnabyddus ac yn gallu nodi'r cyfansoddwr gan bod cerddoriaeth yn aml yn gefndir i'w gweithgareddau ac yn y cyd-addoli.

229. Datblygir sgiliau gwrando a gwerthfawrogi cerddoriaeth disgyblion ymhellach wrth iddynt fod yn gynulleidfa i unigolion talentog sy'n perfformio yn y cyd-addoli.

230. Mae disgyblion ar draws y cyfnod allweddol yn canu'n swynol; maent yn arddangos tonyddiaeth sicr a deinameg da. Canant amrywiaeth o ganeuon; maent yn eu perfformio'n ddisgybledig. Mae perfformiadau cyhoeddus yn y gymuned yn ymestyn sgilau disgyblion yn sylweddol.

231. Ar ben isaf y cyfnod allweddol mae disgyblion yn rhoi datganiad hyderus o gerdd dant. Maent i gyd, a'r rhai hynaf yn enwedig, yn acennu'n gywir, yn canu'n llyfn ac yn cydsymud yn dda. Llwyddant i gadw at eu cyfalaw eu hunain wrth ganu i gyfeilant telyn.

232. Mae sgiliau offerynnol disgyblion ar draws y cyfnod allweddol yn cael eu datblygu ymhellach wrth iddynt gael cyfle i chwarae offeryn cerdd. Mae nifer helaeth o'r disgyblion yn manteisio ar y cyfle i chwarae offeryn llinynnol neu bres. Caiff eu sgiliau eu defnyddio'n dda i ddatblygu ymwybyddiaeth cerddorol yr holl disgyblion.

233. Ar ben isaf y cyfnod allweddol mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o rythmau. Gallant enwi rhai nodau ac wrth glapio rhythm, dangosant ddealltwriaeth o'u gwerth ac effaith saib mewn llinell o gerddoriaeth. Gallant weithio mewn grwpiau bach i greu patrymau rhythmig yn effeithiol; gwerthusant a thrafodant eu cyfansoddiadau.

234. Ar ben uchaf y cyfnod allweddol, mae disgyblion yn deall ystyr termau cerddorol megis 'cyfeiliant' ac ' alaw' ac yn gwybod enwau ystod o offerynnau. Deallant bod ailadrodd yn elfen bwysig mewn cerddoriaeth. Wrth gyfansoddi cyfeiliant i garol Nadolig gweithiant yn dda mewn grwpiau a gwerthusant gyfansoddiadau ei gilydd yn bwrpasol.

235. Ar ben uchaf y cyfnod allweddol mae disgyblion yn gwrando ar gerddoriaeth 'Toccata Alla Danza' gan William Mathias. Yn dilyn hyn lluniant frawddegau cerddorol tebyg eu hunain. Mae gan y disgyblion hynaf ddealltwriaeth dda o nodweddion cerddoriaeth rap.

Diffygion

236. Nid oes diffygion pwysig ond nid yw sgiliau cyfansoddi a gwerthuso disgyblion bob amser yn dangos dilyniant ar draws y cyfnod allweddol.

Addysg gorfforol CA 2 Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

237. Ni arsylwyd ar wersi dawns, nofio nag athletau yn ystod yr arolygiad. Mae polisi a chynllun gwaith yr ysgol yn awgrymu bod y disgyblion yn derbyh rhaglen gytbwys sydd yn ateb gofynion y CC.

Nodweddion da

238. Gŵyr disgyblion ar draws CA2 am effeithiau llesol ymarfer corff ar iechyd, ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o ddiogelwch mewn gwersi addysg gorfforol. Cymerant ofal priodol wrth dynnu a rhoi heibio unrhyw offer a ddefnyddir yn ystod y gweithgareddau.

239. Mae disgyblion B3 yn symud yn egniol ac yn hyderus yn eu gweithgareddau chwaraeon ar y buarth. Mae ganddynt sgiliau trîn pêl da, ac maent yn anfon a derbyn peli yn effeithiol: cydweithiant yn dda gyda phartner ac mewn grwpiau o dri. Maent yn arddangos ymwybyddiaeth dda o wagle.

240. Mewn gwersi gymnasteg llwydda disgyblion B4 i symud yn llyfn i greu dilyniannau, gan deithio yn ôl ac ymlaen, rolio, a chydbwyso ar rannau mawr a rhannau bach y corff. Deallant sut i werthuso a gwella eu perfformiadau eu hunain a rhai ei gilydd, trwy gynyddu tyndra'r corff ac i orffen cyfres o symudiadau gyda siâp pendant.

241. Mae disgyblion B5 a B6 yn datblygu sgiliau da mewn chwaraeon. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd cynhesu ac oeri'r corff, a gweithiant yn egniol yn unigol, mewn parau ac mewn grwpiau i ymarfer taflu a derbyn y bêl, anelu a marcio. Trosglwyddant eu sgiliau yn effeithiol i sefyllfa gêm pel rwyd.

242. Derbynia disgyblion CA2 i gyd wersi nofio am hanner tymor pob blwyddyn yn y pwll nofio lleol. Mae tystiolaeth bod yr ysgol yn dilyn rhaglen strwythuredig sydd yn cynnwys gwersi achub bywyd, ac sydd yn ateb gofynion y CC. Caiff yr ysgol gryn dipyn o lwyddiant mewn cystadleuthau nofio tu allan i'r ysgol.

243. Mae disgyblion CA2 yn elwa o hyfforddiant gan staff arbenigol clwb rygbi Castell Nedd i wella sgiliau rygbi a thrin pêl, ac o gynllun o dan yr AALl i wella sgliau athletau. Datblygant sgiliau chwaraeon da fel canlyniad i ddarpariaeth llawn a chytbwys cynllun Campau'r Ddraig, sydd yn cynnwys rygbi, pêl droed, pêl rwyd, hoci, criced, tennis ac athletau.

244. Mae nifer fawr o ddisgyblion CA2 yn datblygu sgiliau ychwanegol mewn clybiau allgyrsiol ar ôl oriau'r ysgol, megis clwb dawnsio gwerin a chlocsio, clybiau pêl rwyd a rygbi, a gweithgareddau addysg gorfforol gyda'r Urdd. Caiff yr ysgol lwyddiant yn gyson wrth gystadlu'n lleol a chenedlaethol yn y gweithgareddau hyn.

Diffygion

245. Nid oes diffygion pwysig.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

246. Mae canfyddiadau'r arolygiad yn cydnabod ein bod yn ysgol sydd ag ethos arbennig sy'n cael dylanwad mawr ar ddatblygiad y disgyblion. Rydym yn ymfalchio bod yr arolygwyr wedi canfod taw un o nodweddion gorau'r ysgol yw ymddygiad rhagorol y disgyblion, a nodweddir gan eu cwrteisi tuag at ymwelwyr a'r parch at ei gilydd. Nodir yn gryf bod dysgwyr yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith. Dyfarnwyd bod canran y safonau da a gyflawnir gan y disgyblion yn y gwersi a arsylwyd yn llawer uwch na thargedau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2007. Cydnabyddir nodweddion llwyddiannus yr addysgu mewn canran uchel o'r gwersi, sef cyflwyniadau symbylus, athrawon yn adeiladu'n effeithiol ar waith blaenorol a strwythur a chyflymder da. Mae'r adroddiad yn sicr yn canmol medrusrwydd ac ymroddiad ein hathrawon, a gofal a doniau'r cymorthyddion dysgu, yn haeddiannol. Roeddem yn hynod falch i'r tîm arolygu ddyfarnu bod safonau a chynnydd plant yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 mewn gwrando yn rhagorol, a bod disgyblion ag Anghenion Addysgol Ychwanegol yn gwneud cynnydd da ymhob agwedd o'u datblygiad.

247. Sefydlir cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad. Blaenoriaethir yr angen i ddatblygu eu gweithdrefnau asesu ar draws CA2, hogi ein prosesau hunan arfarnu, codi safonau yn y Saesneg a dylunio a thechnoleg a gwella canrannau presenoldeb disgyblion.

248. Mae'r Uwch Dîm Rheoli, y Corff Llywodraethol a'r staff eisioes wedi cychwyn y broses o weithredu newidiadau a gwelliannau a nodwyd gan yr arolygwyr yn yr adroddiad. Bydd angen i ni ffocysu ar agweddau penodol o'r gwaith, sy'n cynnwys gwella ansawdd y marcio, rhoi sylw priodol i ddatblygiad y medrau allweddol a datblygu rôl monitro'r cydlynwyr cwricwlaidd a'r corff llywodraethol.

249. Byddwn yn sicrhau hefyd bod ein Cynllun Datblygu Ysgol yn cael ei addasu er mwyn adlewyrchu'r gofynion yma. Teimlwn yn hyderus fod y gweithdrefnau sydd eisioes yn bodoli yn yr ysgol yn caniatáu i ni symud yr ysgol ymlaen ymhellach, yn unol ag argymhellion yr adroddiad.

250. Anfonir i'r holl rieni gopi o gynllun gweithredu'r ysgol sy'n ymateb i argymhellion yr arolygiad. Bydd adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i'r rhieni yn adrodd ar y cynnydd rydym yn ei wneud o ran yr argymhellion.

251. Diolchwn i'r tîm arolygu am fanylder eu gwaith a thegwch eu canfyddiadau, ac am eu proffesiynoldeb yn ystod y cyfnod arolygu.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gynradd Gymraeg Castell Nedd
Math o ysgol	Meithrin a Chynradd
Ystod oedran y disgyblion	3-11
Cyfeiriad yr ysgol	Heol Woodland, Castell Nedd.
Cod post	SA11 3AL
Rhif ffôn	01639 637701

Pennaeth	Mr Tudur Jones
Dyddiad penodi	Medi 1af 2006
Cadeirydd y llywodraethwyr	Mr H. Isaac
Arolygydd cofrestredig	Mrs Eleri Betts
Dyddiadau'r arolygiad	Rhagfyr 4ydd –7fed 2006

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	38	49	50	51	41	43	41	37	331

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyfwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	14	1	14.8

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	24.4
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	4.8:1
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	26
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.1:1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Hydref 2005	87.0%	90.0%	93.1%
Gwanwyn 2006	84.1%	86.0%	90.9%
Haf 2006	87.2 %	92.7%	90.9%

Canran y disgyblion gyda'r hawl i brydau ysgol am ddim	11%
Nifer y disgyblion wedi'u gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

Atodiad 3

Canlyniadau Asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Canlyniadau Asesiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2005			Nifer y disgyblion yn B2			45	
Canran y disgyblion ar bob lefel							
			D	W	1	2	3
Cymraeg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	68.9%	31.1%
		Cenedlaethol	0	2	8	64	26
Cymraeg: llafaredd	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	71	29
		Cenedlaethol	0	1	10	64	25
Cymraeg: darllen	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	73	27
		Cenedlaethol	0	2	15	60	22
Cymraeg: ysgrifennu	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	96	4
		Cenedlaethol	0	2	18	66	13
Mathemateg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	84.4	15.6
		Cenedlaethol	0	2	10	63	24
Gwyddoniaeth	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	100	0
		Cenedlaethol	0	2	9	65	24

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl asesiad athro			
Yn yr ysgol	100%	Yng Nghymru	80.9%

D Disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o'r trefniadau statudol
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Canlyniadau Asesiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2006			Nifer y disgyblion yn B6				22				
Canran y disgyblion ar bob lefel											
			D	A	F	W	1	2	3	4	5
Saesneg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	18.2	36.4	45.5
		Cenedlaethol	0	0	1	0	1	4	15	47	32
Cymraeg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	22.7	31.8	45.5
		Cenedlaethol	1	0	0	0	1	4	17	50	26
Mathemateg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	13.6	40.9	45.5
		Cenedlaethol	0	0	1	0	1	3	15	47	32
Gwyddoniaeth	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	18.2	45.5	36.4
		Cenedlaethol	0	0	1	0	0	2	11	51	35

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf)			
yn ôl Asesiad Athro		yn ôl Prawf	
Yn yr ysgol	75%	Yn yr ysgol	-
Yng Nghymru	74.3%	Yng Nghymru	-

D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

- Cynhaliwyd yr arolygiad gan dîm o bedwar arolygydd ac roeddent yn bresennol yn yr ysgol am dri diwrnod a hanner sef cyfanswm o 12 diwrnod arolygydd. Yn ychwanegol at yr arolygwyr roedd asesydd cymheiriad yn bresennol ac roedd y pennaeth yn enwebai;

- cynhaliwyd cyfarfodydd cyn-arolygiad gyda'r rhieni a'r CLl i drafod bywyd a gwaith yr ysgol;

- derbyniwyd adroddiad hunan-arfarnu gan yr ysgol fu'n sail i drafodaeth cyn-arolygiad;

- llenwyd 75 o holiaduron gan y rhieni a chawsant eu dadansoddi'n fanwl ac roedd 97% o'r ymatebion yn gadarnhaol;

- archwilwyd dogfennaeth yr ysgol;

- arsylwyd 55 o wersi yn ogystal â rhannau o sesiynau addysgu a mynychwyd sesiynau cyd-addoli a chlybiau ar ôl ysgol gan yr arolygwyr;

- arsylwyd ystod o waith disgyblion a chynhaliwyd trafodaethau gyda disgyblion am eu gwaith a bywyd yr ysgol a chlywyd nifer o ddisgyblion yn darllen;

- arsylwyd ymddygiad y disgyblion yn ystod gwersi, yn ogystal ag ar yr iard ac yn y cyd-addoli;

- cynhaliwyd cyfarfodydd ôl arolygiad gyda'r staff a'r CLl.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Mrs Eleri Betts Arolygydd Cofrestredig	Crynodeb Cyd-destun yr ysgol Argymhellion Cwestiynau Allweddol 1/3/6 Y Cyfnod Sylfaen Cerddoriaeth CA2
Mr Gwilym Davies Arolygydd Lleyg	Cyfrannu at Gwestiynau Allweddol 1/3/4/7
Mrs Rhiannon Harries Arolygydd Tîm	Cwestiynau Allweddol 2/5 Saesneg CA2 Dylunio a thechnoleg CA2 Addysg gorfforol CA2
Mrs Delyth Parris Arolygydd Tîm	Cwestiynau Allweddol 4/7 Mathemateg CA2 Technoleg Gwybodaeth CA2
Mrs Helen Jennings Asesydd Cymheiriad	Arsylwi dosbarthiadau a chyfrannu at drafodaethau cyfarfodydd tîm
Mr Tudur Jones Pennaeth Enwebai	Mynychu cyfarfodydd tîm

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, pennaeth, staff a'r disgyblion am eu cydweithrediad parod.

Contractwr

Uned Gwasanaethu Arolygu Celtic
APPC/UWIC
Heol Cyncoed
Caerdydd
CF23 6XD